# Y TINCER

PRIS 75c
Rhif 333
Tachwedd 2010

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

## BUDDUGOLIAETH I MELINDWR



Dyma lun o dîm buddugoliaethus Criced Melindwr ar ôl ennill Cwpan Criced Haf Aberystwyth. Wrth gyrraedd y rownd derfynol fe fu i Melindwr guro Rachel's Dairies, Penpadarn a Llanfihangel-y-Creuddyn. Yn y rownd derfynol Tregaron oedd eu gwrthwynebwyr ac ar ôl gêm gyffrous Melindwr ddaeth i'r brig pan fethodd Tregaron gael yr wyth rhediad angenrheidol o'r belawd ddiwethaf.
Rhes Gefn: Martin Aston a'i fab Morgan (o'i flaen), Mark Evans, Jake Jones, Alex Perry, Patrick Jones, Lee Evans. Rhes Flaen: Brian Ashton, Toby Spain, Richard Jones (Capten), Chris Sprawl, Dylan Evans

## LLWYDDIANT CERDDOROL



Mared Emyr gyda Michael Jakobiec, Cadeirydd y Panel Beirniaid a Cyfarwyddwr y Conservatoire yn Tournai. Gweler tudalen 4



## PLANNU COEDEN

Rhai o aelodau Cangen Mercher y Wawr Rhydypennau, rhanbarth Ceredigion a rhai o drigolion Cartref Afallen Deg yn plannu coeden gerddinen tu allan i'r Cartref i ddathlu deugain mlynedd Merched y Wawr fel rhan o gynllun Coed Cadw.

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 333 | Tachwed 2010



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD RHAGFYR 2 a RHAGFYR 3 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI RHAGFYR 16

**TACHWEDD 13 – 22 RHAGFYR** "Peidiwch dweud wrth y diaconiaid..." Arddangosfa o waith diweddara'r arlunydd lleol Ruth Jên ym Morlan, Aberystwyth.

**TACHWEDD 25 – 26** Dyddiau Iau a Gwener Cwmni Mega yn cyflwyno Myrddin am 9.45am a 12.45pm

**TACHWEDD 26** Nos Wener Cwis dan ofal Gwyn Jenkins, Tal-y-bont. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**TACHWEDD 27** Bore Sadwrn Ffair Nadolig Capel y Garn, yn Neuadd Rhydypennau rhwng 10 a 12.00.

**RHAGFYR 1** Dydd Mercher Cwmni Martin Geraint yn cyflwyno 'Martyn Geraint a'r lamp hudol' am 10.00 ac 13.00

**RHAGFYR 2** Nos Iau Theatr Bara Caws yn cyflwyno'r ddrama '100' yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**RHAGFYR 2** Nos Iau Ffair Nadolig Cylch Meithrin Trefeurig ac ymweliad gan Siôn Corn yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch rhwng 3.45-6.45. Bydd cawl ar gael.

**RHAGFYR 3** Nos Wener Noson Goffi a Raffl Fawr ; adloniant i ddilyn gan Eleri, Trefor a'u ffrindiau yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 7 – 8.00

**RHAGFYR 3** Nos Wener Noson goffi Nadoligaidd a stondinau ac ymweliad arbennig gan Siôn Corn yn festri Bethlehem, Llandre am 6.30 yr hwyr. Yr elw i goffrau'r Tincer. Trefnir gan Banc Bro.

**RHAGFYR 4** Nos Sadwrn Gwin poeth a mins peis ac ymweliad gan Siôn Corn yn Neuadd Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch rhwng 6 – 8.00

**RHAGFYR 7** Nos Fawrth Cyfarfod PACT yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00

**RHAGFYR 8** Nos Fercher Cyngerdd Bois y Fro ym mhentref Capel Seion am 7.30

**RHAGFYR 16** Nos Iau Plygain Traddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch am 7.30

**RHAGFYR 17** Nos Wener Dathlu'r Nadolig gyda Alan Wynne Jones ac Alun Jones. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30


Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angen-rhedirwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Telerau hysbysebu
Tudalen lawn (35 x 22 cm)£100
Hanner tudalen£60
Chwarter tudalen£30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); un rhifyn - £10 neu dau rifyn £15
Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.


## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Hydref 2010.**

£25 (Rhif 112) Mair Evans, 24 Glan Ceulan, Penrhyn-coch.
£15 (Rhif 115) Margaret Williams, Bryn Golau, Llandre.
£10 (Rhif 54) John Ifor Jones, 4 Maes Y Felin, Penrhyn-coch.

Fe dynwyd y rhifau buddugol gan Eleri Roberts a Ceris Gruffudd yn dilyn ymarfer Côr Cantre'r Gwaelod nos Sul 9fed o Hydref. Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.
Am restr o Gyfeillion y Tincer 2010 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Cyfle i Ymarfer eich Cymraeg

Annwyl Gyfeillion,
Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n dysgu Cymraeg, neu sydd heb siarad rhyw lawer o Gymraeg ers sbel ? Rydym ni'n trefnu noswaith bob mis i bobl gael cymdeithasu yn anffurfiol ac ymarfer eu Cymraeg yn Nhafarn y Rhydypennau. Trefnir yr un nesaf am 9 o'r gloch, nos Lun 29 Tachwedd. Croeso i bawb, gan gynnwys siaradwyr rhugl a hoffai roi help llaw.

Yn gywir,
Matthew Clubb

### Diolch

Dymuna'r Parchg Elwyn Pryse ddiolch yn gywir iawn am yr haelioni a'r cyfarchion a dderbyniodd ar achlysur arbennig yn ddiweddar. Heb anghofio am Y Parti arbennig (a hynny yn gwbl annisgwyl ac yn dipyn o syndod) a drefnodd Cymdeithas y Borth

### Cymdeithas Brodwaith Cymru

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth o hyd at £300 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Dyma'r pumed tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth hon. Amcanion ein Cymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru.

Diffinnir Brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu ychwaneg o wybodaeth cysylltwch â Medwen Charles, Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD. maes.meini@lineone.net Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2011.

## Ysgol yr Hendre – Trelew, Chubut Patagonia – Yr Ariannin

Rydym yn chwilio am athro/athrawes Cymraeg, sydd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer addysgu mewn Ysgol Gynradd i weithio am 10 mis yn Ysgol yr Hendre yn ninas Trelew ym Mhatagonia. Bydd y tymor addysgu yn cychwyn ym mis Mawrth ac yn dod i ben ym mis Rhagfyr, gyda phythefnos o wyliau ym mis Gorffennaf.

Mae Ysgol yr Hendre yn cynnig gwersi trwy gyfrwng y Sbaeneg yn ogystal â thrwy gyfrwng y Gymraeg. Blwyddyn 4 yw'r dosbarth uchaf ar hyn o bryd, ond o fis Mawrth 2011, bydd yr ysgol yn cynyddu i gynnwys Blwyddyn 5. Ystod oed y disgyblion yw 3 i 10, ond nid ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r system addysg ym Mhatagonia yn wahanol iawn i'r drefn o addysgu sy'n bodoli yng Nghymru. Yr ydym felly yn chwilio am berson brwdfrydig, sydd yn hoffi gweithio gyda phlant, ac sy'n abl i weithio'n hyblyg mewn amryw o wahanol sefyllfaoedd.

Bydd y sawl a benodir yn cydweithio yn yr ysgol gydag Athrawes Sbaeneg, a disgwylir iddo/iddi fod yn barod i ymgymryd â gwahanol weithgareddau allgyrsiol gyda phlant yr ysgol, fel Eisteddfodau a nosweithiau llawen.

Bydd y diwrnod gwaith yn cychwyn am 8 y bore ac yn gorffen am 4 y pnawn. Darperir cinio canol dydd yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn talu am docyn awyren o Lundain i Drelew. Telir cyflog athro/athrawes ar raddfa tâl y Wladfa. Darperir llety a bwyd gyda theulu o'r ardal, o bosib yng nghartref un o'r rhieni sydd â phlentyn yn mynychu'r ysgol.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y swydd, neu os ydych chi am dderbyn mwy o fanylion cysylltwch â'r ysgol a/neu anfonwch eich CV at: ysgolyrhendre@gmail.com

Os am air anffurfiol am y swydd gellir cysylltu hefyd â Tegid a Nant Roberts ar 01286 870760

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

**Tegid a Nant Roberts.**



Golygydd y Tincer gyda disgyblion Ysgol yr Hendre, Trelew ar ymweliad diweddar

# 30 Mlynedd 'Nôl



Bu newid dwylo yn hanes Swyddfa Bost, Bow Street, yn ddiweddar ac yn y llun hwn gwelir yr hen a'r newydd. Ar y dde y mae Mr a Mrs Wookey, sydd newydd ymadael â'r ardal. Dymunwn yn dda iddynt ar eu hymadawiad,a diolchwn iddynt am eucaredigrwydd a'u cymwynasgarwch yn ystod eu harhosiad cymharol fyr yn ein plith, ac am y diddordeb a ddangosodd y ddau ym mywyd yr ardal hon. Ar y chwith , y mae eu holynwyr, Mr a Mrs John Owen, Ganed Mr John Owen yn Llanidloes, ond maged ef yn Nhŷ Cam, Cwmrheidol, a ganed ei briod, Maria, yn Llwyn-y-gog, Cwmpadarn. Croesawn y ddau yn gynnes iawniardal y Tincer a dymunwn bob llwyddiant iddynt ar ddechrau'r bennod newydd hon yn eu hanes.

Llun: Bill Evans

ytincer@googlemail.com

**Cronfa Eleri**
**Blwyddyn 2010 – dros £16,000 i'w rannu**
Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n cydnaws ag amcanion y Gronfa
Ffurflen gais a manylion ar gael o: www.cronfaeleri.com
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 16eg 2011**
Amcanion Cronfa Eleri
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

Y TINCER

# Y BORTH

## Amnest Rhyngwladol

Ar ddydd Gwener Hydref 22ain, cynhaliodd Jenny a Stuart Evans eu parti blynyddol i godi arian tuag at Amnest Rhyngwladol. Roedd Jenny wedi paratoi digonedd o gyri blasus i fwydo'r hanner cant drodd i fewn, ac fe aeth y noson rhagddi'n hwylus dros ben! Daeth cyfraniadau blasus ar ffurf saladau a phwdinau o bob rhan o'r Borth ac fe godwyd £300 tuag at achos teilwng dros ben.

## Arddangosfa

Cafwyd agoriad o arddangosfa ar nos Wener 29ain yn 'Adrift', Styd Fawr, y Borth - yr artist dan sylw oedd Tracy Anne Smith. Roedd llawer iawn o'r paentiadau yn portreadu golygfeydd o droeon (roofscapes) Aberystwyth,a chawasant ymateb da gan bawb-mor dda yn wir, nes i sawl un ohonynt gael eu gwerthu yn y fan a'r lle. Bydd yr arddangosfa i'w gweld nes yr 20fed o Dachwedd.

## Pêl droed – Helyg Ger yr Heli

Prynwyd yr holl goed oedd ar werth (25ain i gyd), gan drawsdoriad o bobl y Borth-rhai i gofio am anwyliad ac eraill gan sefydliadau oedd am gyfrannu. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn harddu'r maes , heb anghofio'r elfen ymarferol, sef y byddant yn arbed y peli rhag diflannu i'r afon! Mae'n debyg y bydd mwy o goed ar werth gyda hyn-rhyw bymtheg arall i gyd (os am brynu coeden, cysyllter â Peter ar 871042.)
Plenir y coed fore Sul Tachwedd 21ain gan Rob Davies a Phill Jones.

## Noson Calan Gaeaf

Trefnwyd noson yn Neuadd y Pentre i ddathlu Calan Gaeaf gan y Clwb Pêl Droed ar nos Sadwrn 30ain o Hydref. Roedd yr hen ffefrynau 'The Village Idiots' yn difyrru'r dorf. Cyflwynwyd sieciau'r Carnifal i amryw sefydliadau'r pentre, trefnwyd loteri/ocsiwn a chodwyd y swm anrhydeddus o dros £3,000. Cafwyd noson ardderchog i'w chofio.

## Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Mared Emyr, 5 Ffordd Clarach, ar ei llwyddiant rhyngwladol diweddar. Teithiodd Mared, sy'n ddisgybl 12 oed yn Ysgol Penweddig, i Tournai yng Ngwlad Belg i gystadlu yng Nghystadleuaeth Telyn Felix Godefroid. Roedd y gystadleuaeth yn agored i delynorion hyd at 30 oed, i gystadlu mewn pedwar grŵp oedran, ac enillodd Mared y wobr gyntaf o 250 Euro yn yr adran iau o dan 16 oed. Trefnwyd y Gystadleuaeth Ryngwladol am y tro cyntaf i ddathlu canmlwyddiant marwolaeth Felix Godefroid yn Nhachwedd 1997. Cynhelir y gystadleuaeth pob tair blynedd gyda phanel o chwe beirniad, yn delynorion byd-enwog a cherddorion o Ewrop, a noddir y gystadleuaeth gan y gwneuthurwyr telynau o Ffrainc, Telynau Camac. Yn dilyn perfformiad 10 munud o dri darn o'r cof gosodwyd Mared ar y brig gyda thelynoresau o Ffrainc, Yr Almaen a Sbaen yn ail, trydydd a phedwerydd, gan sicrhau fod y gystadleuaeth yn un wir ryngwladol. Er mai dyma lwyddiant cyntaf Mared ar y llwyfan rhyngwladol mae wedi ennill nifer o wobrau yng Nghymru, gan gynnwys y wobr gyntaf ar yr Unawd Telyn dan 16 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Meironnydd a'r cyffiniau 2009 pan yn 11 oed, a'r wobr gyntaf ar yr Unawd Telyn Oedran Cynradd yn yr ŵyl Cerdd Dant ym Mhontrhydfendigaid yn Nhachwedd 2007.

O ganlyniad i'w llwyddiant yn Tournai, derbyniodd Mared wahoddiadau i fynychu gŵyl delynau yn Lloegr yn 2011 ac i berfformio mewn cyngerdd o enillwyr rhyngwladol yn ail ŵyl Delynau Bangkok ym mis Awst 2012.

Hoffai Mared ddiolch i'w hathrawes Caryl Thomas, Y Bont-faen am ei hysgogiad a'i hanogaeth barhaus; a hefyd i Mr Gwenallt Llwyd Ifan, Pennaeth Ysgol Penweddig, am ei holl gefnogaeth.

## Hirddisgwyl am y Morglawdd

Mae'r gwaith ar Penro yn dal i fynd yn ei flaen; yr hen goed yn cael haen newydd ar eu pennau, a'r cyfan yn cael ei gryfhau gogyfer â'r Gaeaf. Ond ar hyn o bryd does dim cyffro ar y gwaith newydd. Y gobaith yw y bydd y traeth yn fwrlwm o beipiau a dynion y mis nesa'. Brysied y dydd.

## Gwen Lloyd

Mae'r pentre'n cyd alaru â Deryk Lloyd ar golli ei chwaer ar yr 8fed o Hydref. Roedd Gwen yn 97 oed, rhai blynyddoedd yn hŷn na'i brawd Deryk, (gŵr hynaf y Borth). Bu'r ddau yn cydfyw am flynyddoedd ar ôl dod i Gymru o Rotterdam. Cydymdeimlwn hefyd â brawd arall i Gwen, sef—Eddie, sy'n byw yn Middlesborogh.

## Olwen England

Bu farw un arall o'r pentrefwyr ddiwedd mis Hydref, sef Mrs. Olwen England, Annedd Wen, y Borth. Cydymdeimlwn â'i phlant Paul a Sally yn eu colled.

## Geni

Ganwyd Louise Evans, merch i Robin a Luana Evans, Munding House, ddechrau mis Hydref. Wyres newydd i Idris ac Eryl Evans , Ger Y Don, a chwaer i Tom a Dan Evans.

## Y Bad Achub - Gwirfoddolwyr

Mae'r Bad Achub ar hyn o bryd yn chwilio am ferched a dynion i ymuno â thîm Bad Achub

# Dysgwr y mis

**Beth yw eich enw?** Alison Hincks

**Faint yw eich oed?** Rwy'n hanner cant oed.

**Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg?** Dechreuais i ddysgu Cymraeg pan oeddwn i'n bymtheg oed. Doedd dim modd i neb ddysgu yn yr ysgol ar y pryd, ond es i ddosbarth nos, a hefyd ymuno â grŵp bach o bobl lleol i ymarfer siarad.

**Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg?**
Roedd y dosbarth nos yn y Ganolfan Hamdden, ac roedd yr athro yn Ficar. Roedd yn hoff iawn o chwarae recordiau o bobl yn canu yn Gymraeg inni. Er mod i'n cofio mwynhau, 'dw



ddim yn credu y dysgais i lawer iawn fel 'na! Roedd dysgwyr yr ardal yn cwrdd mewn ystafell gefn mewn tafarn o'r enw 'Y Gwesty Bach' ym Mryn-mawr, a gawsom ni lawer o hwyl yno!

**O le ydych chi'n dod yn wreiddiol?** 'Dwi'n dod o Nant-y-glo ym Mlaenau Gwent (Sir Fynwy gynt). Roedd 'na dueddiad pan oeddwn i'n blentyn i bobl ddweud bod Sir Fynwy ddim, mewn gwirionedd, yn perthyn i Gymru. Er hynny, roeddwn i wastad yn meddwl yn gryf mod i'n rhyw fath o Gymraes, hyd yn oed cyn dysgu yr iaith.

**Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?** Roeddwn i'n frwd i ddysgu oherwydd mod i wastad wedi teimlo bod rhywbeth 'ar goll', rhywsut.

**Pryd, neu gyda phwy ydych siarad Cymraeg?** 'Dw'n siarad Cymraeg gyda fy nheulu, fy ffrindiau, yn y gwaith bob dydd, ac hefyd gyda unrhyw un arall sy'n fodlon!

y Borth. Os oes diddordeb gennych i ymuno, a wnewch chi, os gwelwch yn dda, alw i weld Ronnie yng ngorsaf y Bad Achub ar fore Sul am 10.00.

### Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch


Daeth yr aelodau ynghyd i Festri'r Gerlan i gyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Fercher Hydref 13 i drefnu rhaglen y gaeaf. Diolchwyd i'r cyn-lywydd y Parchedig Wyn Morris am ei lafur ac yn arbennig am y daith ddiddorol ddiwedd y tymor i odre Ceredigion a drefnwyd gan Judith ac yntau. Yn absenoldeb Mair Lewis y Llywydd newydd llywyddwyd gan Richard ei phriod ac ar ôl rhoi trefn ar y rhaglen cafwyd orig ddifyr yn ateb cwestiynau'r cwis a drefnwyd gan y Parchedig Richard Lewis gyda'r ddau dîm yn gyfartal ar y diwedd!

Diolchwyd hefyd i'n hysgrifennydd Llinos Evans ac i Glynne ac Elizabeth Evans, y naill wedi bod yn drysorydd gofalus am flynyddoedd a'r llall wedi gofalu cynnwys hanes ein cyfarfodydd yn Y Tincer. Ein cofion atynt gan obeithio fod Glynne yn gwella ar ôl ei salwch.

Bydd Llinos yn parhau yn ysgrifennydd, etholwyd John Hughes yn is-Lywydd a David S. Evans yn Drysorydd.

Cynhaliwyd ein hail gyfarfod ar Dachwedd 10 dan lywyddiaeth Mair Lewis a gan nad oedd Elwyn Pryse yn gwybod fod yna barti wedi'i drefnu i ddathlu'i ben blwydd yn 80 oed, cafodd dipyn o SYRPRYSE! Roedd Margaret Griffiths wedi paratoi pob math o fwyd a danteithion ar ein cyfer a diolchwn iddi hi ac i Mair a Llinos am baratoi noson hwyliog. Sioc i tad-cu hefyd oedd gweld Eilir ei ŵyr a Meleri ei wyres yno'n disgwyl am Tegwen ac yntau yng nghwmni Maldwyn ac Eleri. Gwerthfawrogwyd cyflwyniadau llafar Eilir a datganiadau cerddorol Meleri a'i chyflwyniad i Karate - mae'n bencampreg Cymru ac yn un i'w hosgoi!

Ar ôl gair gan Wyn Morris a W.J.Edwards darllenodd Mair englyn Huw Ceiriog i gyfarch Elwyn:






Heddiw mae'r henwr diddan —
oedd yn gawr
Ddoe'n y Garn a'r Gerlan,
Yn edrych llai na'i oedran
O fod yn ei garafan.

Wrth longyfarch Elwyn dymunwn i Tegwen ac yntau flynyddoedd llawen gyda'i gilydd eto.

### Cadeirydd Fforwm

Braf oedd gweld Rhys Hedd Pugh-Evans ar lwyfan Pafiliwn Pontrhydfendigaid yn ddiweddar. Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Fforwm Ieuenctid yr Urdd 2009-2010, cafodd y fraint o gario medal enillydd Ysgoloriaeth Bryn Trefel i'w chyflwyno i'r enillydd. Bu hyn yn fraint arbennig iddo gan gloi blwyddyn arbennig fel Cadeirydd. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y cyfle i gyd ysgrifennu Neges Ewyllys Da yr Urdd, ynghyd a'i lansio yn yr Ardd Fotaneg a'r Cynulliad. Fe'i welwyd yn rhai o brif seremoniau Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron a chafodd y cyfle i deithio allan i Senedd Ewrop i gwrdd a Jill Evans ASE, heb sôn am y cyfleoedd i fynychu cyfarfodydd amrywiol gan yr Urdd.

Diolch i Anwen Eleri, Swyddog Datblygu'r Urdd yng Ngheredigion am roi'r cyfleoedd arbennig hyn i Rhys ac i Ysgol Penweddig y llynedd am eu cefnogaeth wrth ei ryddhau i fynychu amryw o weithgareddau.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

# LLANDRE

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elen Watkin, Maeshenllan a Matt Shepard ar eu priodas yn San Francisco mis diwethaf. Mae Elen a Matt wedi ymgartrefu yn Llundain. Dymuniadau gorau i'r ddau a phob hapusrwydd.

### Brysiwch wella

Gwellhad buan i Beryl Hughes, Pantyperan, sydd wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

### Prif Wobr

Llongyfarchiadau i Gwion James, Tremedd, ar ennill y brif wobr yng Ngŵyl Ffilm Pics, yng Ngaleri Caernarfon dros y penwythnos. Mae modd gwylio'r ffilm ar YouTube/y Llinell http://www.youtube.com/watch?v=TTZ7k2R9ufs

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Megan a Leire Dafis, Glanceiro, ar ennill medal aur yr un ym Mhencampwriaeth Nofio Ysgolion Ceredigion ym Mhlas-crug ddechrau Tachwedd.

### Sefydliad y Merched

Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn yn ystod ein cyfarfod Mis Hydref gan Mr Edryd Jenkins yn disgrifio ei daith ef a'i ferch i Fynydd Everest yn ystod Tachwedd 2005. Trefnwyd y daith gan Gwmni World Expeditions a chymerwyd tair wythnos i gyflawni'r daith. Wedi hedfan i Katamandu roedd yn rhaid cymeryd awyren fach i hedfan ymlaen i Lukla. Roedd y maes awyr yn fach gyda mynyddoedd o'i amgylch ac roedd gweddillion nifer o awyrennau yn dystiolaeth o ba mor anodd oedd hedfan yno.

Roedd dau arweinydd ac un ar hugain o Sherpas yn tywys y chwech oedd ar y daith. Y Sherpas oedd yn cario'r pebyll, yr offer a'r bwyd ar y blaen ac yn paratoi prydau bwyd blasus ymlaen llaw bob nos. Fel yr oedd y daith yn mynd ymlaen roedd yn mynd yn fwy anodd gan i'r Ocsigen leihau gyda chynnydd yn yr uchder. Roedd y daith i'r Base Camp - 18000 o droedfeddi uwch wyneb y môr - ar hyd llwybr cul oedd a chreigiau ar ei draws a dyffrynnoedd cul yn cael eu croesi gan bontydd ansicr ac ansefydlog. Er bod y tywydd yn gymharol gynnes yn ystod y dydd roedd yn oeri yn sydyn erbyn y nos ac wedi agosáu at y Base Camp rhaid oedd gwasgu i mewn i dri sach cysgu i gadw'n gynnes. Pob nos yr oedd yn rhaid cysgu mewn lleoliad oedd yn is i lawr na lle yr oeddynt wedi ei gyrraedd yn ystod y dydd gan fod hynny yn ei gwneud yn haws i addasu yn gorfforol i'r uchder. Cawsom gasgliad o luniau arbennig o effeithiol i ddarlunio'r sgwrs oedd yn rhoi syniad i'r aelodau o'r tirwedd hardd a golygfeydd godidog. Disgrifiodd Mr Jenkins y pleser a'r teimlad gogoneddus o gyrraedd eu nod yn y Base Camp.

Yn ogystal â bod ar daith fyth gofiadwy casglodd Mr Jenkins a'i ferch nifer sylweddol o arian ar gyfer Cymdeithas Alzheimer ac ar gyfer Ward Meurig yn Ysbyty Bron-glais.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir a Glyn Williams, Bryngolau, ar golli cyfnither yn Llundain yn ddiweddar.

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau i Rhys Watkin, Maeshenllan, sydd adre ar hyn o bryd ar ôl derbyn triniaeth ar ei ben-glin. Hefyd i Margaret Williams, Bryngolau, a fu yn Ysbyty Bron-glais am gyfnod a Gladys Jones, Bronberllan sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd.

### Dewi ac Anna Thomas

Yn dilyn y cyfeiriad at farwolaeth y Parchedig Ganon Dewi W. Thomas a'i briod hoff Anna, yn rhifyn Medi, tybiais mai da fyddai cofio am eu llafur mawr nhw a'u merched Llinos, Morfudd, Eluned (un o ffrindiau ysgol Mair fy chwaer) a'r ddiweddar Nona, rhwng 1955 a 1967 pan oedd Dewi yn ficer Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn. Daethant yma o Glydau heb fod ymhell o fan geni Dewi yn Lanfyrnach sir Benfro. Wedi'i hyfforddi yng Ngholeg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan, bu Dewi'n gurad yn Llansael a Llandysul, ac o Landre aeth i Bontyberem a Llanilar. Cartrefwyd yn Rhydaman ar ôl ymddeol nes gorfod symud i gartref gofal yn Cross Hands. O gofio i'r ddau farw o fewn diwrnod i'w gilydd mae'n werth cofio englyn gwych y Parchedig O.M.Lloyd i ŵr a gwraig fu farw yr un pryd yn Nolgellau:

Efo'i gilydd fe'u gwelwyd — hyd eu hoes,<br>
Ill dau ar eu haelwyd;<br>
Yna law yn llaw yn llwyd<br>
Efo'i gilydd fe'u galwyd.

Gan fod Dewi yn fardd, llenor, heddychwr, cenedlaetholwr a phregethwr a bugail nodedig does ryfedd fod pobl yr eglwysi yn sôn am gael eu cyfoethogi drwy'i weinidogaeth. Gweinidogaeth ar y cyd oedd hi a'i briod yn ei hanwylo'i hun i'r gynulleidfa. Gan imi ddechrau pregethu yn fuan ar ôl i'r teulu ddod i Hen Ficerdy Llandre, bu Dewi'n gyfaill cefnogol i mi ac i'm cyfaill Irfon Jones a ddaeth yn weinidog ifanc i'r Noddfa a'r Borth. Er mor ddiwyd oedd y ddau llwyddasant i ddilyn cwrs coleg yn Aberystwyth a graddio'n anrhydeddus. Enillodd Dewi ei M.A. yn ddiweddarach am draethawd ar 'Addysg yng Ngheredigion (1800-1850) yn ôl y Cofiannau'.

Cynyddodd y gynulleidfa dan weinidogaeth Dewi a rhoddodd sylw arbennig i'r plant a'r ieuenctid. Gwyddom am ei safiad fel heddychwr ac eciwmenydd. Pan waharddodd yr Esgob John Richards offeiriaid Esgobaeth Tyddewi rhag gwasanaethu mewn capeli na rhoi lle i weinidogion mewn angladdau anwybyddodd Dewi'r gwaharddiad. Ag yntau wedi'i fagu'n Annibynnwr yng nghapel hynafol Llwyn-yr-Hwrdd, Tegryn, gogledd Penfro (gyda'i gyfeillion D.Gwyn Evans gynt o Dal-y-bont, a W.Rhys Nicholas) roedd wrth ei fodd yn pregethu yng nghyfarfodydd diolchgarwch y capeli.

Yn ystod Wythnos y Pasg 1963 cynhaliodd Dewi'r gwasanaeth eciwmenaidd cyntaf yn yr eglwys gan ofyn i D.R.Pritchard, gweinidog y Garn gyd-arwain gydag ef a chael Irfon Jones i bregethu. Codi pontydd a wnaeth Dewi a sefyll yn gadarn dros Gymdeithas y Cymod a threchu gwrthwynebwyr cas gyda'i hiwmor a'i wên — 'y wên na phyla amser' — chwedl cân Dafydd Iwan i D.J.Williams, un o arwyr Dewi. Fe'i gwelid mewn gwrthdystiadau yn gyson, o Drawsfynydd i Gaerfyrddin, o Gomin Greenham i Aldermaston. Roedd yn un o ysgogwyr yr ymweld blynyddol â safle capel Bethel Cwm Cilieni, ar Epynt a da fod yna lun ohono ar ei ymweliad olaf yn 2008 ar gael.

Wrth ddiolch am weinidogaeth gyfoethog Dewi Thomas yn Llanfihangel Genau'r-glyn a mannau eraill anfonwn ein cofion at ei anwyliaid.
W.J.Edwards

### Merched y Wawr Genau'r-glyn

Yn ein cyfarfod fis Hydref, Will Griffiths, sydd newydd gyhoeddi llyfr dan y teitl *Dyn y Mêl*, ddaeth aton ni. Gyda'i frwdfrydedd heintus a'i wybodaeth ddihysbydd datgelodd inni rai o ddirgeledigaethau a rhyfeddodau'r gwenyn.

Ym mis Tachwedd cafwyd noson arall lawn asbri pan ddaeth Gareth William Jones i siarad am 'Ceisio Plesio'r Plant'. Ei yrfa yn awdur llyfrau plant oedd dan sylw. Mae yntau newydd gyhoeddi cyfrol arall, Breuddwyd Monti, sy'n ymwneud â chwarae golff, a Chwpan Ryder yn benodol.

Ar Ragfyr 13eg Bwyd Chineaidd fydd dan sylw yng nghwmni Mrs Margaret Griffiths.

**Noson goffi Nadoligaidd**

Stondinau
Ymweliad arbennig gan Siôn Corn
yn festri Bethlehem, Llandre

Nos Wener Rhagfyr 3ydd
am 6.30 yr hwyr.

Yr elw i goffrau'r Tincer.
Trefnir gan Banc Bro.

*Blodau i bob achlysur*

***Blodau'r Bedol***

*Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur*

***Donald Morgan***
*Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB*
*Ffôn 01974 202233*
*Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer*

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

## Cyfarchion Pen blwydd

Deallir fod Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc, yn dathlu pen blwydd arbennig ar 25ain o Dachwedd. Llongyfarchiadau iddi a diolch am fod yn ohebydd cydwybodol cyson i'r Tincer sy'n brysur yn casglu cynnyrch o fis i fis. Dymuniadau gorau yr ardal gyfan i chi. (Gol.)

## Mrs Elizabeth Mary Jones, Rhoslwyn

Unwaith eto, tristwch mawr yw gorfod cofnodi marwolaeth cymeriad annwyl iawn sef Mrs Elizabeth Jones, Rhoslwyn.

Ganwyd hi yn Rhiwbwys ym 1920, yn ferch i Thomas a Rachael Jones, yn un o 5 o blant a fagwyd ar aelwyd hapus iawn. Mynychodd Elizabeth ysgolion Brynherbert, Llanrhystud ac Ardwyn. Bu yn gweithio yn Llundain cyn dod yn ôl i Gymru ar ôl dioddef y "rheumatic fever."

Roedd ganddi yr awydd i deithio, ond arhosodd yn Aberystwyth yn y swydd o Reolwraig ym Mhopty Wynne Owen. Priododd â Eurfyl Tanrallt ym 1951, a ganwyd iddynt bump o blant - Gwendoline, Gerwyn, Alwyn, Nia ac Eiri.



Mrs Elizabeth Jones, Rhoslwyn

Bu Mrs Jones yn weithgar tu hwnt yn y gymuned, yn aelod ffyddlon o'r capel, yn gymorth mawr i'w gŵr fel trysorydd y neuadd, ac yn amlwg iawn yng nghlwb chwaraeon y plant a phobl ifanc, a gynhaliwyd yn y neuadd ar un adeg. Yr oedd ei hun yn dipyn o chwaraewr Badminton.

Fel y dywedwyd yn ei theyrnged ddydd ei hangladd, roedd ei chrefydd yn bwysig iawn iddi, a threuliodd ei bywyd yng ngwir ystyr y Gair, trwy fod yn ffrind i bawb.

Gŵyr pawb hefyd, na fedrech "ddianc" o Rhoslwyn heb "cup of tea bach" ei geiriau hi.

Gweithiodd fel gweinyddwr cinio yn ysgol Pen-llwyn am tua pymtheng mlynedd. Ei chymar agos yno oedd Mrs Maggie Jones, a dyna i chi amser hapus oedd y cyfnod yma o dan arweinyddiaeth y Prifathro Mr Martin Davies. Ymgymerodd hefyd â'r gwaith o gasglu a chyfrif arian cinio y plant, ac yn hollol groes i'r arfer, diwrnod diflas iawn oedd, pan orfu iddi ymddeol yn 65 oed.

Gyda threigliad y blynyddoedd, ymfalchiodd bod yn fam-gu i David a Paul - plant Gerwyn a Matty, a Steffan a Rhydian - plant Nia a Raymond. Roedd y ddau yma yn byw ond tafliad carreg o Rhoslwyn, a daethant yn ran bwysig o fywyd dyddiol Elizabeth ac Eurfyl.

Felly daeth yn ergyd a cholled enfawr i bawb o'r teulu pan gollodd Eurfyl ei frwydr yn erbyn cancr.

Tua ugain mlynedd yn ôl dechreuodd Mrs Jones golli ei golwg, ond brwydrodd i sicrhau fod bywyd yn mynd yn ei flaen.

Roedd yn aelod ffyddlon o Ferched y Wawr Melindwr, ac hefyd Clwb y Deillion yn Aberystwyth, lle y gwnaeth nifer o ffrindiau newydd. Ond methodd yn deg a digymod a'r distawrwydd llethol wedi colli ei gŵr. Ac ar ôl blwyddyn anodd symudodd i Gartref Tregerddan, a chafodd flwyddyn hapus yno. Yn ystod yr amser yma, daeth yr afiechyd creulon dementia i'w blino. Ar ôl dau fis yn ysbyty Bron-glais symudodd i Gartref Nyrsio Plas Abermad, mis Mai eleni. Mae'r teulu yn dra ddiolchgar am y gofal a gafodd yn y ddau Gartref, ac yn falch o'r adborth a ddaeth o'r ddau le yn reolaidd, a hynny, : mor ddiolchgar oedd eu mam bob amser am bopeth.

Na, efallai fod Elizabeth Jones heb grwydro y byd, ond roedd ganddi bopeth oedd ei hangen ar ei haelwyd, ac nid oedd fyth yn hapusach na phan oedd bob un o'r plant a'u teuluoedd yn ymweld â hi.

Diolchwn am fywyd person arbennig iawn.

Cynhaliwyd ei hangladd ar y 6ed o Hydref yng nghapel Pen-llwyn dan ofal y Parchg Ifan Mason Davies, pryd y daeth tyrfa o berthnasau a ffrindiau i dalu y gymwynas olaf iddi.

Coffa da am Mrs Elizabeth Jones, boed i'r atgofion ddal yn fythol wyrdd.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Gwendoline, Gerwyn, Alwyn, Nia ac Eiri a'u teuluoedd yn eu hiraeth.

## Diolch

Dymuna teulu y ddiweddar Elizabeth Jones, ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar ôl colli eu mam. Llawer o ddiolch am yr ymweliadau, cardiau, galwadau ffôn, presenoldeb yn yr angladd, blodau a'r cyfraniadau tuag at Gapel Pen-llwyn a Chlwb y Deillion Aberystwyth er cof amdani. Gwerthfawrogwyd eich caredigrwydd yn fawr iawn.

## Capel Pen-llwyn

Cynhaliwyd cyfarfod diolchgarwch yn y capel Nos Wener 22ain Hydref. Y gweinidog gwadd oedd y Parchg Andrew Lenny, a chafwyd bregeth bwrpasol ganddo. Siomedig eto eleni oedd nifer yr aelodau a fynychodd y gwasanaeth. Paham, dwedwch ein bod wedi mynd mor ddifater, a chymaint gennym i ddiolch amdano? Addurnwyd y capel yn hardd gan Mrs Eirwen Sedgwick. Diolchodd Mrs Heulwen Lewis i'r rhai oedd yn bresennol o eglwysi cyfagos. Dymunwn yn dda i Mr Martin Davies a Mr Eilir Morris, a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch. Gobeithio y cant adferiad llwyr a buan.

## Ysbyty

Blin oedd clywed fod Miss Gwen Davies, Panteg, yn dal yn yr ysbyty wrth fynd i'r wasg. Dymunwn iddi adferiad llwyr a buan, a chofion cynnes yr ardal i chi Gwen.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Sally Evans, Tywynfa, wedi colli ei chwaer yng nghyfraith— gwraig y diweddar Tom Alun Evans.

## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd, fe deithiodd yr aelodau i bentref Bronnant, i Siop y Bont. Fe'n croesawyd yno gan Eurgain James. Clywsom ganddi am y modd y prynodd hi, ei brawd Eurig a'i wraig Eleri y fusnes a agorwyd ganddynt bum mlynedd yn ôl wedi cryn dipyn o waith adnewyddu y tu fewn i'r siop.

Maent yn canolbwyntio ar werthu cynnyrch Cymreig a chawsom flasu nifer ohonynt — caws, pwnsh, mwstard, pâté, ceuled lemon a hufen ia. Maent yn brysur iawn adeg y Nadolig yn paratoi a gwerthu hamperi. Gall y cwsmer ddewis cynnwys yr hamperi os dymunant. Dangosodd Eleri sut y mae'n mynd ati i baratoi hamper gan dynnu nwyddau addas ar gyfer pen blwydd priodas ruddem o'r silffoedd cyn eu pacio'n ddeniadol. Eleri hefyd a fydd yn pobi cacennau a phasteiod a werthir yno.

Cafwyd cyfle i grwydro o amgylch y siop a phrynu ambell i eitem yn ogystal â siarad ag Eurgain, Eleri a Beti (mam Eurgain) a oedd yno yn rhoi help llaw i'r ddwy ac yn gofalu ar ôl ei hŵyr ieuengaf, Iolo.

Diolchodd Ann Jenkins iddynt am y noson ddymunol a dreuliwyd yn Siop y Bont.

## Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor

Ar ran aelodau a chyfeillion yr Eglwys, hoffwn ddymuno gwellhad llwyr a buan i'r canlynol:

Y Parchedig John Livingstone, Y Ficerdy, Penrhyn-coch sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Mr Edward Griffiths, Penlon, sydd wedi cyrraedd adref o'r ysbyty erbyn hyn.

Braf gweld Mr Sid Clench, Poplars, Mrs Mair Stanleigh, Dolfawr a Mr a Mrs Lawrence Cock, Gwarfelin sydd ar wellhad ac yn ôl yn ein plith.

# GOGINAN

## Cydymdeimlwn

Trist yw cofnodi marwolaeth Cyril Davies, Bwthyn y Cwm yng Nghartref Plas Cwmcynfelin. Cydymdeimlwn gyda'i ferch Jacqueline.

## Wyres


Llongyfarchiadau i Colin a June Baxter, Oakdale ar enedigaeth eu hwyres fach newydd yn Llangwyryfon. Ganed Erin Lili ar Hydref 13 i Stephen a Charlotte ac yn ôl pob sôn mae ei brawd mawr wedi dotio arni.

## Pen blwydd Arbennig

Pen blwydd hapus i Kath Hughes, Bryn Pica, ar ei phen blwydd arbennig. Mae yn siwr o deithio tipyn yn awr gan na fydd rhaid iddi dalu am y bws.

## Pob Lwc

Dymuniadau gorau i Susanne Vaughan, Gwelfryn, yn y rownd derfynnol yn Llundain yng nghystadleuaeth cwmni Spar am y person delfrydol fel gweithiwr siop. Fe wnaeth rheolwr y siop y mae yn gweithio ynddi yn Aberystwyth ei henwebu gan ei bod mor bleserus bob amser ac hefyd yn gofalu am y bobl mewn oed sydd yn siopa yno ac o'r herwydd mae Susanne wedi mynd drwyddo i'r rownd derfynol dros Gymru a Lloegr. Pob lwc iddi yn Llundain.



Priodwyd merch Brian a Liz Ashton, Araul, ym Mhortmeirion adeg y Pasg eleni. Mae Jenni a'i gŵr Nicholas Hadfield wedi ymgartrefu yn Efrog lle mae Jenni yn athrawes ysgol gynradd a Nick yn ymgynghorwr pres. Pob lwc i'r ddau am y dyfodol.


LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

DRUID INN Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

CLWB CŴL
Penrhyn-coch
Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£6 y sesiwn . £5 ail blentyn
Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig
Clwb Gwyliau
Mae'r clwb hefyd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS
08.30 y.b. – 5.30 y.p.
£18 y diwrnod plentyn cyntaf
£16 y diwrnod ail plentyn
Sesiwn hanner diwrnod
08.30 – 1.00 y.p. neu 1.00 y.p. – 5.30 y.p.
£9 plentyn cyntaf . £8 ail plentyn
I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith neu Katy Nash ar
07972 315392
clwbcwl@googlemail.com
Neu cipiwch mewn i'r clwb ar ôl Ysgol
Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan, Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!

Theatr FELIN-FACH
Cwmni Actorion Theatr Felin-fach yn cyflwyno
O's Ffos? O's! O's!
Dewch i ymuno â Tegi Wegi a'r criw yn anturiaethau'r panto!
04 – 11.12.10
Ffôn: 01570 470697
www.theatrfelinfach.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt.
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch
Gwrthtaith Fibrophos a rhai organig
Ymgymymerir â phob math o waith amaethyddol am brisiau cystadleuol
Loriau a pheirianau amaethyddol i'w llogi
01970 820149
07980 687475

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

GWELY A BRECWAST MAIR
9 Heol Llangrallo, Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 3AR
Croeso cynnes Cymreig mewn lleoliad delfrydol i ganolfanau siopa gorau de Cymru, Canolfan y Mileniwn, Stadiwm y Mileniwm a Cae Pêl-droed Caerdydd.
www.mairsbedandbreakfast.co.uk
e-bost : mairbandb@hotmail.com
01656 655442
07768 286303
Cysylltwch â Huw a Sarah Tudur

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

### Suliau Rhagfyr

2.00
5 Bugail
12 Oedfa'r Plant
19 Arwyn Pierce
26 Terry Edwards

### Genedigaeth

Ar Hydref 29ain ganwyd merch ferch i Sioned a Llywelyn, Rhydyceir, Capel Madog sef Lleucu Elen ap Llywelyn — wyres i Alwyn a Margaret Hughes, Gwarcwm Hen, a gor-wyres i Mrs Nan Hughes, Gellinebwen.

### Croeso

Yn ddiweddar mae Arthur ac Eirian Hughes wedi ymgartrefu yn Lluest Fach, Capel Madog, sef hen gartref Eirian er eu bod wedi byw yn Bow Street am bron i ddeugain mlynedd. Croeso cynnes i'r cwm; edrychwn ymlaen i'ch cael fel cymdogion.

### Taith

Braf yw gweld Tegwen ac Aldwyth Lewis, Rhos-goch wedi dod nôl yn ddiogel ar ôl eu taith i Batagonia.

### Diolchgarwch

Nos Fawrth, 9fed o Dachwedd cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch yng Nghapel Madog. Croesawodd y gweinidog y Parchg Wyn Rh Morris bawb ynghyd gan estyn croeso cynnes i'r pregethwr gwadd, y Parchg Eifion Roberts. Cafwyd oedfa fendithiol ac amserol a'r capel wedi ei addurno'n hardd gan y chwiorydd. Yr organyddes oedd Angharad Rowlands.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Michael Reeves, mab Eirlys a Tony Reeves, Rickmansworth, ŵyr y diweddar Mr a Mrs Elfyn Williams, Ysgubornewydd ar ei ddyweddïad â Ursula O'Leary, merch y diweddar Mr a Mrs William O'Leary, Llundain.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dai a Wendy Evans, Fferm Fronfraith, ar golli modryb Mrs Ceinwen Page o'r Amwythig, gynt o Llawr y Cwm bach, Bont-goch;

hefyd i Gwenda ac Alun Hughes, Troedrhiwgwinau ar golli mam Gwenda — Mrs Bet Jones o Landdeiniol.

### Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Wyn Morris, Plas y Fronfraith yn ei swydd newydd yn ddarlithydd astudiaethau busnes ym Mhrifysgol Aberystwyth.

### Wedi'r storm

Bu un pen o'r Parsel heb gysylltiad ffôn (a gwe) am o leiaf wythnos ar ôl i bolyn teligraff syrthio yn y storm. Gyda'r *Tincer* ar fynd i'r wasg nid oes dim sôn am neb yn dod i'w drwsio.

# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Llywyddwyd cyfarfod yr Hydref o'r Cyngor gan yr is-gadeirydd y Cyng Heulwen Morgan. Yn dilyn rhai argymhellion yn y cyfarfod diwethaf penderfynwyd mai gorau fyddai cael rhagor o brisiau am feinciau sydd wedi eu llunio o ddeunydd ail-gylchu. Nid oes sicrwydd erbyn hyn bod trydan wedi ei gysylltu i'r lamp ger Bryndolen yn Blaenddol. Gofynnir i'r trydanwyr edrych i mewn i'r mater. Disgwylir i'r gordyfiant ger Capel Noddfa gael ei dorri yn fuan.

Derbyniwyd adroddiad misol gan y Cyng Sir, y Cyng Paul Hinge. Dywedodd bod y gwaith papur parthed uwchraddio rhan o Maesafallen yn mynd yn ei flaen, a bod cyfarfod i fod yn fuan, yn ôl y drefn, i'w gynnal yn Festri Noddfa. Cyflwynodd gopi o adroddiad sefydlu gorsaf trên yn Bow Street. Mae'r awdurdodau wedi derbyn mai yn Bow Street y bydd yr orsaf yn hytrach nag ariannu un arall ym Mhowys. Mae golau Maes Ceiro wedi ei ddiwygio fel bod y lampau yn gwybod y gwahaniaeth rhwng nos a dydd. Gyda gofid yr adroddodd nad yw ffordd Clarach o Bow Street yn cael blaenoriaeth i'w graeanu pan ddaw tywydd drwg. Gobeithir gosod arwyddion i arafu'r drafnidiaeth wrth groesffordd Llangorwen yn fuan. Mae nifer o ddamweiniau yn digwydd wrth y bont ger yr eglwys hefyd. Gyda thristwch y cyfeiriodd at ddamwain arall ger Dolgau, a brofodd yn angheuol, ac mae eisoes yn trafod gydag Adrannau y Ffyrdd am gael sythu'r gornel beryglus hon.

Codwyd y mater bod lorïau uchel yn methu mynd o dan Bont Rhydhir ac yn gorfod bacio yn ôl i Bow Street gan achosi trafferth i fodurwyr a niweidio ffensys IBERS. Os gellir symud yr arwyddion sy'n dynodi uchder y bont yn ôl i Bow Street, efallai y gellir osgoi y broblem hon.

CYNLLUNIO. Derbyniwyd gwybodaeth fod cais am newid defnydd unedau yn Nantllan wedi ei ganiatáu. Roedd hwn yn mynd yn ôl i 2008.

Derbyniwyd cais oddi wrth Glwb Pêl-droed Bow Street am gyfraniad tuag at ei noson gymdeithasol o Dân Gwyllt. Penderfynwyd cyfrannu £125. Datgelodd y Cyng Vernon Jones ei ddiddordeb yn yr eitem hon ac ni chyfrannodd i'r drafodaeth. Yr un modd datgelodd y Cyng Harri Petche ei ddiddordeb pan ddaeth llythyr oddi wrth Bwyllgor y Cae Chwarae yn gofyn am gefnogaeth (trwy lythyr) i'r adrannau priodol am gael ehangu y cwrt chwarae tennis a'r man ymarfer chwaraeon. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

Yr unig fater ariannol oedd talu bil torri porfeydd am y flwyddyn sef £800. Bydd y cyfarfod nesaf ar 25 Tachwedd.

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Diolch

Hoffai Eirlys Davies, Caehaidd, ddiolch o galon i bawb am y dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod ei salwch diweddar. Mae yn ei werthfawrogi yn fawr iawn.

### Urdd y Benywod

Cafwyd noson ddiddorol iawn ddechrau Hydref yng nghwmni Lloyd Edwards, Penrhyn-coch pan y bu yn datgelu rhai cyfrinachau gwneud jam a tsytni ar gyfer sioeau. 'Roedd wedi dod â nifer o wahanol ddanteithion er mwyn i ni gael eu blasu. Nos Lun gyntaf yn Nhachwedd cawsom noson yn gwneud gwahanol bethau allan o hen glytiau. Llwyddodd rhai i wneud bandiau ar gyfer eu gwisgo yn y gwallt. Croesawodd ein llywydd Norma Stephens pawb yn gynnes iawn i'r ddau gyfarfod yma a da oedd cael cwmni cymaint o wragedd yr ardal yn y ddwy noson.

### Teledu

Bu Mair Stanleigh, Dolfawr, ar y rhaglen deledu Wedi 7 yn ddiweddar yn dreifio ei char ar hyd ffordd y Cwm. Mae hi yn 97 oed ac yn dal i ddreifio ac ar hyn o bryd hi yw yr yrrwraig hynaf yng Nghymru. Tipyn o record a gobeithio y deil i fynd am nifer o flynyddoedd eto!

### Capel Llwyn-y-groes

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch eleni eto gyda y Parchg Eifion Roberts, Capel y Morfa, yn bregethwr gwadd. Cafwyd gair o groeso gan Elizabeth Lewis a'r organyddes oedd Delyth Davies, Maencrannog. Roedd y Capel wedi ei addurno yn hyfryd iawn a diolch o galon i bawb am eu presenoldeb eleni eto.

### Dyrchafiad

Llongyfarchiadai i Glenys Williams Ty'n Wern ar gael ei dyrchafu yn Uwch-ddarlthydd yn Adran y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth.

### Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau hwyr i Hywel ac Ann Ellis, Hywelfan, ar ddathlu eu priodas ruddem ddechrau mis Hydref.

# PENRHYN-COCH

## Suliau Rhagfyr

**HOREB**
**5** 2.30 Oedfa Gymun Gweinidog
**12** 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
**19** 2.30 Oedfa Nadolig Gweinidog
**25** 7.30 y bore Oedfa gymun fore'r Nadolig
**26** 10.30 Oedfa ddiwedd blwyddyn Gweinidog

**SALEM**
**12** 2pm - Y Parchedig Richard H Lewis
**24** Rhagfyr — 5.30pm — Bethel, Tal-y-bont — Gwasanaeth y Plant
**25** 10am — Y Nadolig, Bethel, Tal-y-bont — Y Parchedig Richard H Lewis

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 24 Tachwedd a 8 a 15 Rhagfyr. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Priodas

Llongyfarchiadau i Mandy Jones, Tal-y-bont a Derek Glennie o'r Ddol Fach, ar eu priodas yn Nhwrci yn Awst a chroeso i Mandy i Benrhyn-coch!

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Kelly a Mathew Bishop, Glan Seilo, ar enedigaeth mab-Aron William, brawd i Lowri.

## Eisteddfod 2011

Cyhoeddodd Mairwen Jones, ysgrifennydd Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch enwau beirniaid a llywyddionEisteddfod 2011 a fydd i'w chynnal ar 8-9 Ebrill.

**Llywyddion**
Nos Wener: Janice Morris
Prynhawn Sadwrn: Alwen Fanning
Nos Sadwrn:Y Cynghorydd Richard Owen

**Beirniaid**
Lleol (nos Wener)
Cerdd: Meinir Edwards, Llandre
Llefaru: Enfys Hatcher, Gors-goch
Cerdd:Helen Wyn, Brynaman
Llên a Llefaru: Aled Gwyn, Caerdydd

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Ken Evans, Coedgruffydd, ar farwolaeth ei chwaer Ceinwen Elizabeth Page, - fu yn gweithio a byw am flynyddoedd yn Swydd Amwythig.

## Cymdeithas y Penrhyn

Un o gymeriadau mwyaf lliwgar yr ardal oedd testun sgwrs Andrea Parry, ein gwraig wadd fis Hydref. Merch o'r Bala yw Andrea sy'n athrawes ddrama ac ymarfer corff yn Llanrwst. Tra'n ddisgybl yn Ysgol y Berwyn daeth o dan ddylanwad y ddiweddar Buddug neu BJ a phriodol iddi olygu ei chofiant Buddug James: Brenhines y ddrama (Cyhoeddiadau Barddas) y llynedd. Hyfryd oedd cael croesawu nifer o gwmni drama Licris Olsorts a chafwyd sawl hanesyn digri ganddyn nhw hefyd.

Yn ystod y nos cawsom wledd o atgofion a throeon trwstan. Disgrifiodd BJ fel 'corwynt o ddynes, byth ag amser, ond ag amser i bawb'. Aeth ar drywydd y C's yn ei bywyd — y car, y cathod, crwydro, caredigrwydd, cymwynasgarwch, cymdeithas, y capel a'r cystadlu oedd mor bwysig iddi. Ac yn treiddio drwy'r cwbl — y diffyg cadw trefn, y diffyg cadw amser a'r diffyg cydymffurfio! Enaid rhydd â chalon fawr. Dyna oedd B.J. Prin yw cymeriadau o'r fath erbyn hyn! Gadawodd fwlch ar ei hôl ond roedd ei chyfraniad unigryw i do ar ôl to o ieuenctid Cymru benbaladr ym amhrisiadwy.







Yr Athro Dafydd Johnston, Dr Tedi Millward, a'r Dr Huw Meirion Edwards yn Horeb, Penrhyn-coch pan draddodwyd darlith gyntaf Cymdeithas Canolfan Dafydd ap Gwilym fis Hydref gan yr Athro Johnston.

## Gwefan Trefeurig www.trefeurig.com

Ychwanegwyd adran Ffilm a Sain i wefan y plwyf yn ddiweddar lle gellir gwrando ar rai o gerddi Dafydd ap Gwilym yn cael eu perfformio; Linda Griffiths a Lisa yn canu yn y Smithsonian yn Washington yn 2009; gwrando ar gyfweliad gyda Niall Griffiths; Nigel Humphreys yn darllen rhai cerddi allan o'i lyfr diweddar *The Flavour of Parallel*; gwrando ar Dr Rhiannon Ifans yn darlithio ar Dwm o'r Nant yn LLGC; a gweld darnau o ffilm gideon Koppel Sleep furiously.

## Cylch Meithrin Trefeurig

Bydd y Ffair Nadolig ychydig yn wahanol eleni —fe'i cynhelir nos Iau Rhagfyr 2il yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch rhwng 3.45 — 6.45, Bydd ymweliad gan Siôn Corn a bydd cawl ar gael.

## Urdd y Gwragedd, Penrhyn-coch

Y Parchedig Alan White oedd gwestai mis Tachwedd, fe fu'n ein diddori gyda'i gasgliadau o hen gardiau post a hanesion am rai ohonynt a fu ym meddiant ei deulu ers dechrau'r ugeinfed ganrif. Mae ei wreiddiau yn ddwfn yn Llandre, ac er iddo grwydro tipyn yn rhinwedd ei swydd, mae bellach wedi ymddeol ac yn byw yn Aberystwyth.

## Sul Y Cofio

Cafwyd gwasanaeth ger y gofgolofn ar sgwâr Penrhyn-coch fore Sul, Tachwedd 14eg dan ofal Mrs Lona Jones, Glanceulan. Cafwyd darlleniad gan Mrs Gwenan Price, Dolmaeseilo a gosodwyd pum plethdorch ger y gofgolofn, a thorch fach ar ran y Brownies. Chwaraewyd yr 'Alwad Olaf' ar y trymped gan Osian James, Taigwynion.

## Eglwys St Ioan Penrhyn-coch

Mi fydd Siôn Corn yn ymweld â Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch, ar nos Sadwrn y 4ydd o Ragfyr rhwng 6-8y.h., am ychydig o 'Win Poeth a Mins Peis'. Mae'n estyn gwahoddiad i blant y pentref i ddod a'u rhestr anrhegion ganddynt i hwyluso'i waith rhag ofn ceir streic post, ac mi fyddant yn derbyn anrheg fechan am eu trafferth. Yn ogystal, mi fydd yna stondin cynnyrch Nadolig; raffl; cystadleuaeth i'r plant; posau a mwy. Hwyl i'r teulu oll, galwch heibio i ymuno â'r hwyl.

## Merched y Wawr

Nos Iau 14eg o Hydref aeth y gangen i ymweld â siop cigydd Y Garn a chafwyd yno groeso arbennig gan Heath Ragget a'i wraig Rhian. Fe gafwyd cwpanaid yn y caffi bach cyn cychwyn y noson ac yna fe aeth pawb drwodd i'r siop lle oedd pob math o gigoedd a hefyd siop groser. Aeth ymlaen i ddangos

i ni sut oedd trin gwahanol fathau o gig a sut i'w goginio. Fe roddodd rhai syniadau gwych i ni sut i baratoi at y Nadolig sydd wrth law. Yn ystod y noswaith roedd Meirion Roberts ei brentis yn ei helpu yn y siop. Yna yn ôl i'r caffi lle oedd bwffe gwych o bob math o ddanteithion wedi eu paratoi i ni ac i ymgymryd ohono. Cyn mynd tua thre diolchodd Wendy Reynolds i'r cigydd a phawb am noswaith arbennig iawn.

Nos Lun, 8fed o Dachwedd, aeth criw drwy wahoddiad i lawr at gangen Llanafan i'r Eisteddfod Ffug oeddynt wedi ei threfnu. Ar wahân i ni roedd cangen Ffair-rhos yno hefyd. Pawb yn cael hwyl yn cystadlu yn erbyn ei gilydd wrth i Alun Jenkins, Pontarfynach fod yno yn ein beirniadu. Cymerwyd rhan o gangen Penrhyn-coch gan Glenys Morgan, Mair Evans, Janice Morris, Elizabeth Wyn, Sandra Beechey, Ceri Williams a Mairwen Jones. Er mai cangen Llanafan ddaeth i'r brig bu cangen Ffair-rhos yn agos iawn atynt. Cafwyd gwledd i fwyta ar ddiwedd y noson. Diolchodd ein llywydd Glenys i bawb ar ran ein cangen ni am noson wych.

### Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Henry Thomas, Cwmfelin, a fu yn Ysbyty Bron-glais a Threforus yn cael triniaeth yn ddiweddar.

Hefyd gwellhad buan i Sion James, a fu yn yr ysbyty ar ôl damwain pêl-droed.

### Diolch

Dymuna'r Parchg John a Mrs Kathryn Livingstone ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau caredig a'u gweddïau cariadus dros gyfnod salwch John yn ddiweddar. Mae'ch cefnogaeth wedi bod o gymorth ac o gysur mawr.

### Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Ellen Sheppard, 1 Dôl Helyg, a ddathlodd ben blwydd arbennig ar Dachwedd 18fed.



Dyma Ellen yn dathlu gyda grŵp crefft Llandre gyda chacen a wnaeth Elisabeth Wyn i'r achlysur.




newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ


## O'R CYNULLIAD



Roedd mis Hydref mor brysur â'r arfer wrth imi fynychu digwyddiadau ar hyd a lled Ceredigion. Fodd bynnag, y mis hwn fe fynychais ddau gyfarfod ynghylch Ysbyty Bron-glais a'r gwasanaethau sydd ar gael yno. Cyfarfod yr oeddwn wedi ei drefnu ar gyfer Grŵp Ymgyrchu aBer gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda oedd y cyntaf. Yn ystod y cyfarfod, fe glywyd mwy am y bwriad i ymgynghori gyda'r cyhoedd ar gynlluniau i ddarparu mwy o driniaethau yn ein cymunedau ac fe gafwyd trafodaeth dda ar yr angen i gynnal ymgynghoriad agored a chynhwysfawr.

Wythnos yn ddiweddaraf, roeddwn yn falch i groesawu'r Gweinidog Iechyd i Ysbyty Bron-glais er mwyn cynnal sesiwn holi ac ateb ar y cyd ar gyfer staff yr Ysbyty. Roedd modd i weithwyr godi unrhyw bryderon yn uniongyrchol gyda fi a'r Gweinidog ac rwy'n ddiolchgar iawn i Edwina Hart AC am deithio i Aberystwyth i fynychu'r sesiwn hwn.

I lawr yn Llambed, roeddwn yn falch iawn i fynychu gwasanaeth arbennig i gyflwyno Gwobr Ddeimwnt i Gynghrair Cyfeillion Cartref Hafan Deg. Rwy'n gwybod bod trigolion y cartref, ynghyd â phobl Llambed a'r ardal, yn ddiolchgar iawn am gyfraniad pwysig y staff a'r Gynghrair Cyfeillion i fywyd bob-dydd y cartref.

Ym Mhontrhydfendigaid, roedd hi'n fraint i fynychu cystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel yn y pafiliwn. Cafwyd cystadleuaeth dda a braf oedd gweld adeilad y pafiliwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cystadleuaeth genedlaethol fel hyn. Hoffwn longyfarch pawb oedd yn cystadlu eleni a dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf, mae lleoliad siop yr elusen leol Ffagl Gobaith wedi symud yn Aberystwyth i 14 Y Stryd Fawr ac roedd hi'n fraint i gael fy ngwahodd i agor y siop newydd yn ffurfiol yn ddiweddar. Mae Ffagl Gobaith yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy ar gyfer cleifion â chancr ac rwy'n gobeithio y bydd y lleoliad newydd yn helpu codi hyd yn oed yn fwy o arian ar gyfer gwaith yr elusen.

*Elin Jones AC*

## DÔL-Y-BONT

### Cydymdeimlad

Estynwn ein cydymdeimlad â theulu Pantydwn ar farwolaeth chwaer i Gwesyn a Gerallt, sef Enid Howells, Maes Ceiro.

Cydymdeimlwn hefyd a theulu Bryndderwen ar farwolaeth nith i John a chyfnither i Sian Elin. Bu farw Helen Buchanan (merch Rosa a Ray) yn 52 mlwydd oed ganol mis Hydref.

### Diolchgarwch

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Capel y Babell bnawn Sul, 28 Tachwedd am 2 o'r gloch.

Y Parchg Wyn Morris fydd yng ngofal y gwasanaeth ac estynnir croeso cynnes i bawb.


RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANAETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
Sefydledig dros 30 mlynedd
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

# BOW STREET

### Suliau Rhagfyr

**Capel y Garn**
10 a 5
http://www.capelygarn.org/

5 John Price 10
Siôn Meredydd 5
12 Oedfa'r Plant
19 Arwyn Pierce 10
Bugail 5
26 Terry Edwards

**Noddfa**
5 2.00 Gweinidog
12 10.00 Y Parchg Ddr Terry Edwards, Cymundeb
19 5.00 Gweinidog Nadolig Noddfa
24 Oedfa noswyl Nadolig am 11.30 yr hwyr
25 Uno yn y Garn ar gyfer oedfa bore Nadolig
26 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Helen a Dylan Huw Jones, Bryncastell ar enedigaeth mab - Huw Lloyd Jones yn Awst, brawd bach i Elen Non.

### Pen blwydd hapus

Bu Vi Jones, gynt o Bow Street, yn dathlu ei phen blwydd yn 102 ar yr 8fed o Dachwedd yn ei chartref yn Llundain. Mae yn mwynhau ei bywyd yn fawr iawn yng nghwmni ei theulu ond mae bob amser yn cofio'n gynnes iawn am ei ffrindiau i gyd yn yr ardal hon ac am eich cyfarch i gyd a diolch am gofio amdani.

### Merched y Wawr Rhydypennau

Siaradwr gwadd nos Lun 10 Hydref oedd Mr Iwan Jones, Dolau. Testun ei sgwrs oedd "Lluniau Hanes John Thomas". Symudodd John Thomas o Cellan i weithio yn Lerpwl pan oedd yn bymtheg oed. Datblygodd ddiddordeb mewn ffotograffiaeth gan deithio gyda'i gamera i dynnu lluniau ar draws gogledd Cymru. Mae tair mil o'r lluniau hyn mewn casgliad yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn ystod y noson cawsom gyfle i werthfawrogi ystod eang o'r lluniau hyn yn gymeriadau, lleoliadau, ffeiriau a gweithwyr. Diolchwyd i Iwan gan Beryl Hughes, ein llywydd. Paratowyd lluniaeth ysgafn gan Rhian Jones-Steele a Menna Dafydd. Enillwyd y raffl gan Cerys Jones. Ar nos Lun, Rhagfyr 13 bydd aelodau'r gangen yn canu carolau ar hyd y pentref.

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

### Newid aelwyd

Erbyn hyn mae Eirian ac Arthur Hughes wedi symud o 31 Tregerddan i hen gartref Eirian yn Lluest Fach, Capel Madog. Diolchwn iddynt am eu cyfeillgarwch ac am fod yn gymdogion da er 1983 a dymunwn bob bendith iddynt yn yr hen gynefin.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â theulu'r ddiweddar Enid Howells, Maes Ceiro, a fu'n farw'n dawel yn ei chartref ar 13 Medi.

### Pen blwydd arbennig

Mae'n anodd credu fod y Parchedig Elwyn Pryse wedi dathlu'i ben-blwydd yn bedwar ugain ond dyna ddigwyddodd ar 2 Tachwedd pan oedd Tegwen ac yntau yn mwynhau yng Nghaerefrog. Wrth longyfarch Elwyn dymunwn flynyddoedd dedwydd iddo eto yng nghwmni Tegwen sydd mor ofalus ohono.

### Wedi gwella

Rydym yn falch fod Kathleen Lewis, Llys Alban, yn well ar ôl bod yn yr ysbyty a'i bod yn ôl yn gwasanaethu capel y Garn a Chartref Tregerddan. Ein cofion at Trefor ei thad a hithau.

FFAIR NADOLIG
PLAID CYMRU
yn y Morlan, Aberystwyth
2 o'r gloch 4ydd o Ragfyr
Agorir gan Elin Jones AC




Tra ar ymweliad â'r Wladfa yn ddiweddar bu Alun Jones yn beirniadu llên a llefaru yn yr Eisteddfod flynyddol. Gwelir ef ar y llwyfan yn ystod seremoni y cadeirio pan enillodd Esyllt Nest Roberts de Lewis, y Gaiman. Mae Esyllt yn frodor o'r Ffôr, Gwynedd ac yn nith i Moss Jones, Taigwynion, Llandre. Llun: Daniel Feldman



Roedd gêm fawr ar Gae'r Piod dydd Sadwrn 13 Tachwedd pan gollodd y tîm cartref i Athrofa Caerdydd (UWIC) ar ôl amser ychwanegol a chiciau cosb yn nhrydydd rownd cwpan Cymru. Yn y llun gwelir Bow Street yn mynd 1-0 ar y blaen ar ôl cic o'r smotyn Phil Evans. Llun : Richard Huws



Gwenno Fflur Dafydd, Maes Afallen, a Sa'ipolu Tapa'atoutai Uhi o Tonga a briodwyd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth dydd Sadwrn, 13 Tachwedd, gyda'r wledd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref yng Nghaerdydd. Llun: Einion Dafydd

# Yr Archentwyr a ni!

Yn ddiweddar aeth saith o aelodau'r Urdd o Geredigion a'n Swyddog Datblygu Anwen Eleri ar daith fythgofiadwy gyda aelodau eraill o'r Urdd i Batagonia yn yr Ariannin. Tra yno, buont yn cadw dyddiadur a dyma gip i chi o beth y bu Elgan, Cadi, Hana, Ifan, Meirian, Holly, Guto ac Anwen Eleri yn ei wneud ystod eu hymweliad â'r Wladfa.

"Mae'r profiadau rydym wedi cael nid yn unig yn fythgofiadwy ond yn agoriad llygad. Ar ôl gweld yr holl ysgolion, y ffordd o fyw a.y.b rwyf nawr yn gwerthfawrogi beth ydw i di cael adre" Elgan

**22 Hydref**
Wedi bod yng Ngholeg Camwy, Gaiman heddiw yn diddanu nhw - gêmau dod i adnabod ein gilydd, gêmau ymddiried ac ati a hynny drwy'r Gymraeg. 6 awr o ddiddanu gyda phobl ifanc o bob oed — blinedig iawn!

Rhai o ni di bod mewn rhagbrofion Steddfod bore ma — am drefn, 2 awr yn hwyr yn cychwyn!! Gwell trefn gan Anwen Eleri!

Yn y Pnawn buom yn ymarfer at yr eisteddfod yn y gegin yn y gimnasio (ein llety yn y Gaiman) a chwrdd â'r cerddor Hector McDonald. Mlaen i'r steddfod gyda'r hwyr! Yr Eisteddfod yn wahanol iawn i Steddfod yr Urdd! Y feirniadaeth ar lafar o'r ford, yn Gymraeg ac yna Sbaeneg! Mi gawsom ni 2il gyda'r côr merched a'r côr emyn, y ddeuawd Elgan a Meirian di cael 1af, Georgina (o Ysgol y Fro, Y Barri) di cael 1af ar yr unawd a Meirian 3ydd — whooo! Noson hwyr iawn!!!!

**24 Hydref**
Wedi bod mewn cymanfa ganu yng nghapel Bethel a chanu lot fawr o emynau!

Yna nôl am Asado yn y Gymnasiwm - dathliad diwedd Steddfod!. O nhw di dechre cwcan y cig ers 7 y.b — tu fas ein stafell gysgu ni! mi oedd yna loads o gig!!!!!
Canu i berthynas Morfudd Slaymaker o Lambed oedd yn 100 oed. Ni di canu a diddanu yn bobman!!
Dawnsio a joio da criw Coleg Camwy yn y pnawn a gyda'r hwyr — Steddfod ddwl yn lot o laff!

**25 Hydref**
Ysgol Feithrin y Gaiman bore 'ma yn canu a chwarae gêmau, criw



hyfryd. Profiad anhygoel clywed y criw dan 4 oed yn canu Hen Wlad fy Nhadau air am air yn gywir.

Gadael y Dyffryn a symud ymlaen!
Diwrnod ym Mhuerto Madryn yn gwylio'r morfilod, ymweld â'r amgueddfa a'r ogofau.
Noson gymdeithasol a the gyda Chymdeithas Gymraeg Puerto Madryn

**26 Hydref**
Cyrraedd Esquel ar ôl 8 awr ar fws. Cyrraedd hostel - Casa verde Golygfeydd a llety lush!

Ymweld ag Ysgol Gymraeg yr Andes,Trevelin - joio chwarae pêl droed a chymdeithasu gyda'r criw ifanc.
Asado ar fferm leol - y Greens - noson neis a joio!

**28 Hydref**
Ymweld ag Ysgol y Felin yn Nhrevelin heddiw. Mae baner y wlad tu allan i bob ysgol yn yr Ariannin, ac mae hi'n cael ei chodi i dop y polyn bob dydd ond hanner ffordd lan oedd hi heddiw achos bod Cyn-Arlywydd y wlad wedi marw.

Mynd i Tŷ Te Nain Maggie am de bach - na beth oedd spread o cacs!
Fashion show heno! J Cymdeithas Gymraeg Esquel yn trefnu. Noson o ddiddanu eto - rhai o'r criw yn modelu a sylwebu!

**29 Hydref**
Diwrnod yn y Parc Cenedlaethol — tywydd diflas ond golygfeydd stunning! Twmpath Dawns heno a chyfle i gyfarfod â Maer Trevelin (fe di bod yn Aberteifi!)


**30 Hydref**
Peintio arwyddion Ysgol Gymraeg yr Andes a Chapel Seion, Esquel ac wedyn mi fuom ni yn gwneud cacs i Ferched y Wawr i'w gwerthu mewn stondin gacennau - ein cacs ni ddim yn edrych yn grêt ond yn tasto yn iawn!

**31 Hydref**
Plannu capsiwl amser (bocs o atgofion - lluniau, papur newydd, baner o Gymru, gonc Mistar Urdd, amserlen ein taith ....) yng ngerddi Casa Verde. Cofnod ac atgof o'n taith - gobeithio rhyw ddiwrnod dychwelyd i weld a yw yn dal yno!
Gadael Trevelin am Bariloche. 5 awr ar fws i'r maes awyr!

**2 Tachwedd**
Cyrraedd Caerdydd ar ôl siwrne hir!!!!!!. Pawb yn hiraethu am Batagonia ac am golli ein cyfeillgarwch — dagre mowr!!!!!!
Lwc out, re-union amdani!
"Mae'n od meddwl mai mis Chwefror gathon ni glywed am y daith ac mae wedi dod ac wedi mynd! Gwerthfawrogaf y cyfle ma yn fawr iawn, diolch i'r Urdd am roi'r cyfle i fi. Taith sydd wedi bod yn brofiad a hanner! "
Meirian

Braslun o'r daith sydd uchod, os am fwy o'r hanes neu am weld lluniau mae croeso i chi gysylltu â un ohonom. Diolch i bawb wnaeth gefnogi a'n cynorthwyo mewn unrhyw ffordd tuag at ein taith anhygoel - profiad y gwnaiff pob un ohonom eu trysori am byth.

**O'r criw o Geredigion daw Ifan Hywel o Gapel Dewi ac mae Meirian Morgan yn wyres i Eirlys Davies, Caehaidd Cwmrheidol. Mae Meirian ac Elgan yn rai sydd wedi bod yn cefnogi a chystadlu Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch. (Gol.)**

# DOLAU

## Gwella

Rydym yn falch i glywed fod Dr Mike Leggett, Nantlais, yn dal i wella ar ôl cyfnod yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

## Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Dr Hywel Davies, gynt o Penrhos. Ar ôl ei ymddeoliad o'r swydd Ymgynghorydd Radioleg yn Ysbyty Bron-glais dychwelodd i'w hen gynefin yng Nghemaes Road, Powys. Yr oedd yn gymeriad tawel, a parchwyd ef gan bawb a'i adnabyddai.

Ei brif ddiddordebau oedd yn gyntaf oll ei deulu. Ei gasgliad niferus o wahanol goed a llwyni oedd wedi ei plannu ar dir ger ei gartref - llawer ohonynt o wledydd estron.

Bu yn dilyn hynt tîm pêl-droed Lerpwl ers pan oedd yn fyfyriwr yn yr Ysgol Feddygol yn y ddinas honno, a byddai yn dal i fod yn bresennol mewn llawer gêm.

Wedi ymddeol yr oedd cerdded llwybrau gwledig y ddwy gymdogaeth y bu'n cartrefu ynddynt yn bwysig iawn iddo.

Cydymdeimlwn â'i briod Elizabeth, a'i dair merch - Susan, Ruth a Sian a'u teuluoedd yn ei colled.



Ddiwedd mis Gorffennaf priodwyd Euryl Rees a Bethan Lewis yng Nghapel Bethania, Bethesda. Y gwas priodas oedd brawd Euryl - Julian, a'r tywyswyr oedd Rhydian Phillips ddaeth draw o Awstralia, Peter James, James Thomas - ffrindiau, a brawd Bethan - Aled Lewis. Y forwyn briodas oedd Nia Lewis, chwaer-yng-nghyfraith, y forwyn blodau oedd Elain Lewis, nith, a Sion Lewis a Sam Rees, neiaint, oedd y gweision bach. Maent wedi ymgartrefu ym Mhenrhyn-coch ers sawl blwyddyn. Llongyfarchiadau mawr iddynt oddi wrth y ddau deulu.

ytincer@googlemail.com

# COLOFN MRS JONES

Nid oes signal ffôn fach ar Ynys Iona. Fe ddysgais hyn ar fy ngwyliau diweddar i Oban, taith a gynhwysai ddiwrnod ar Ynysoedd Mull ac Iona.

Fe roedd lleoliad fy ngwyliau eleni wedi bod yn gryn destun trafod. Nid oedd gennyf stumog i fynd i Marmaris er fe af eto i le sydd yn agos iawn at fy nghalon.Yn bersonol, nid oedd gennyf fawr o awydd mynd i unman ond yr oedd y teulu yn benderfynol fy mod yn mynd ac yn mynd ar fy mhen fy hun, oni bai fod plant Meirion yn siarad Saesneg a'm brodyr a'u gwragedd yn siarad Cymraeg, fe fyddent wedi medru canu duet berffaith cymaint eu cytundeb ar y pwnc. Eu dadl fawr oedd y byddai yn meithrin annibyniaeth a hyder i deithio ar fy mhen fy hun ynof gan fy mod yn amlwg yn mwynhau teithio. A phan yw teulu a theulu yng nghyfrairh rhywun yn cytuno, mae'n bryd bodloni i'r drefn ac ufuddhau. Ac mae'n rhaid i mi gyfaredd eu bod yn llygad eu lle.

Fy newis cyntaf oedd ynys Creta ond syrthiodd y cynllun hwnnw rhwng y cŵn a'r brain ond o bendroni, cefais syniad. Arferai fy nain a fy modryb fynd gyda Caelloi* ac onid dyma'r ateb i minnau? Ni fyddwn fy hun a byddwn yn sicr o Gymry eraill yn gwmni a chan ein bod yn genedl mor fechan, fe roedd yna hefyd siawns da y byddwn unai yn adnabod rhywun neu yn adnabod cyfeillion un o'm cyd - deithwyr. A gwir y gair a mwynheais fy hun yn rhyfeddol.

Fe roeddwn wedi bod yn yr Alban o'r blaen, flynyddoedd meithion yn ôl pan oeddwn yn blentyn. Roeddwn wedi awgrymu sawl gwaith i Meirion ein bod ninnau yn mynd ond, am ryw reswm, nid oedd y lle yn ei ddenu o gwbl.Gormod o law a rhy debyg i Gymru fyddai ei ateb bob tro gan ei chychwyn hi am yr Iwerddon neu Dwrci am sgawt. Ond fe roedd gennyf fi awydd dychwelyd yno a mynd i ardal yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd a dyna yn union a wneuthum.

Cawsom dywydd braf iawn ond,yn wir,y mae'r Alban yn debyg iawn i Gymru ond ei bod ar raddfa fwy o lawer, rhyw un dafn o Loch Lomond yw Llyn y Bala, mae gennyf ofn a chorrach eiddil yw'r Wyddfa o'i chymharu a mynyddoedd enfawr yr Ucheldiroedd. Ond yr un yw natur y tirwedd a'r un yw lliwiau y grug a'r rhedyn a'r un yw croeso y bobl - atom ni Gymry, o leiaf, digon ffwrbwt oedd eu hymagweddu at y Sassenach!

Un gwahaniaeth mawr a welais y tro hwn oedd arwyddion dwyieithog Saesneg a Gaeleg ym mhobman, bron, er mai ychydig o'r iaith a glywais. Synnu o weld mai Y Garsiwn yw'r enw Gaeleg ar Fort William, enw cwbl gywir, wrth gwrs, oherwydd fe'i sefydlwyd fel troedle i fyddin Lloegr ymosod ar gyfundrefn Geltaidd a Gaeleg yr Ucheldiroedd. A synnu deubeth yn Fort William ei hun. Yr oeddem yno ar brynhawn Sul ac yr oedd y lle yn farw gorn, un siop elusen, tafarn a chaffi yn unig oedd ar agor. Dyna y syndod cyntaf, yr ail un oedd pa mor hir y bum i cyn cofio paham, roeddwn wedi llwyr anghofio mai dyna sut oedd hi arnom ninnau tan yn gymharol ddiweddar.

Pan aethom i Mull, ni ddeallwn i yn iawn frwdfrydedd pobl dros weld Tobermory, nid oes dim o'i le ar y lle, mae'n bentref digon lliwgar ond, yn fy myw, ni allwn ddeall pam fod pobl mor frwd a bu'n rhaid i mi ddisgwyl hyd oni ddeuthum adref a chydweithiwr i mi esbonio mai dyma gartref Ballamory a chartref rali geir enwog.......

Ac ni fedrwn ddeall pam fod yna homar o Tesco's nid nepell o borthladd Oban na pham fod merched yn dod oddi ar y fferi gyda chesys dillad,yn wir, daeth un lleian gyda dau. Holais yrrwr y bys a dyma fo yn dweud wrthyf,'mi ddyweda i wrthych chi heno pan fyddwn yn sefyll ar Mull i ddal y fferi yn ôl...'Hynny a fu a phan oeddem yn disgwyl yno gyda'r nos,wele'r merched - a'r lleian - yn ôl a'r cesys yn amlwg drymach...ac roedd yr esboniad yn syml pan ddaeth.Rhaid mewnforio popeth i Mull ac Iona a mynd i siopa oedd y merched gyda eu cesys a dyna paham fod Tesco mor hwylus i'r porthladd. Ac ni fedrwn beidio a meddwl sawl un ohonynt a gyrhaeddai adref wedi anghofio rhywbeth, mi wn mai dyna fyddai fy hanes i. A hwnnw y feri peth yr oeddwn ei angen fwyaf, mae'n siwr.

Roedd Iona yn gyfareddol a swyn yr Abaty,crud Cristnogaeth yr Alban,drosti i gyd. Ac er ei fod yn ymddangos yn lle anhygyrch iawn inni heddiw, rhaid cofio nad felly yr oedd hi pan oedd gafael y Celtiaid ar y moroedd yn sownd. Yr oeddwn wedi addo i'm brodyr yr anfonwn neges destun iddynt oddi yno,dyna sut y sylweddolais nad oes signal ffôn fach yno. Ond mae signal gwerthoedd a chredo hŷn yn gryf iawn yno.

*Caelloi —cwmni bysus o Bwllheli (Gol.)

## COLOFNYDD Y MIS



### Rhydian Mason

(gynt o Gwmisaf, Trefeurig)

Mae 8 mlynedd ers i mi symud i Fachynlleth o Gwmisa'. Bellach, yn briod ag Elen, ac yn dad i ddau o blant hyfryd — Gwenllian Meleri a Morgan Elwyn.

Ychydig yn ôl, daeth y pedwar ohonom nôl adre' i Gwmisa' am bnawn i gael paned gyda Mam a Dad.

"Dyna lle aeth dadi i'r ysgol" dywedais wrth Gwenllian wrth ddod heibio ysgol Trefeurig.

"Oes lot o blant 'na?" gofynnodd.

"Nagoes cariad. Mae'r hen le wedi cau." - Bois bach mi wasgodd yr ateb yna arnai.

I ysgol Trefeurig aeth fy hen Dad-cu —James (Jim), fy Nhad-cu - Elwyn, fy Nhad — Dai, a finne.

Ond daeth y gadwyn i ben — fel croes goch Mrs Megan Creunant Davies neu Mrs Della Williams ar un o'm llyfrau 'sgwennu - pan roddodd ryw fiwrocrat hunan bwysig ei groes goch ar ddyfodol yr ysgol.

Ond, yn ffodus iawn, mae'r gymuned wedi bod yn weithgar dros y blynyddoedd yn cynnal digwyddiadau yn yr adeilad — mae ysbryd Trefeurig, os nad yr ysgol ei hun, yn dal yn fyw.

Ac mae hyn yn bwysig. Mae'r ysgol wedi bod yn bwynt ffocws i'r ardal — ysgol, cwrdd cystadleuol, sioe'r fro, sinema, dosbarthiadau nos, ffair haf, - mi allwn ni sôn am fwy o bethau ond dwi'n credu fod y pwynt dwi'n drio'i neud yn glir. Mae Ysgol Trefeurig yn parhau i ddal ei dir fel canolbwynt Pen-bont, Cwmsymlog, Cwmerfin, a Bancydarren.

Mae'n adeilad 'balch', yno'n sefyll yn sentinel i unrhyw un a ddaw fewn i'r hen blwy'. Ar ei waliau mae'r enwau a naddwyd gan y disgyblion i gerrig yr adeilad yn ystod amserau chwarae, a thu fewn, ar dalcen y dosbarth mae enwau plant y fro na ddaeth yn ôl o'r rhyfeloedd. Ac ambell enw arall, i goffau a dathlu'r rhai hynny a ddaeth yn ôl yn ddiogel ar ôl gwasanaethu (ac enw'n Nhad-cu ac ambell berthynas arall i mi yn eu mysg).

Ond nawr, mae bygythiad arall i'r adeilad sy'n symbylu traddodiad ac ysbryd cymunedol y fro.

Mae gan y gymuned ond 6 mis i ymdrechu i gadw'r ysgol o fewn eu perchnogaeth. 6 mis i godi miloedd ar filoedd — neu mi fydd yr hen le yn cael ei roi ar y farchnad agored. Cywilydd.

Bu cau'r Ysgol Gynradd yn glec flynyddoedd yn ôl. Heb os, mi fydd gwerthu'r hen aelwyd bwysig yma'n un caletach fyth.

Mi fuaswn wrth fy modd pe buaswn yn gallu prynu'r lle a'i roi yn ôl yn nwylo'r gymuned — wedi'r cyfan, mae fy nyled i ysgol Trefeurig yn enfawr.

Ond na, does dim tocyn aur gennai.

Mi wnâi beth allai — wrth gwrs. A dwi'n siŵr, y gwnewch chi hefyd beth allwch chithau.

Os gallwch chi helpu mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â'r Cyngor Cymuned — mae 'na ymgyrch ar gychwyn yno.

Ar ôl ei werthu, tybed be wneith Cyngor Ceredigion â'r arian?


Prynu mwy o 'grit' ar gyfer strydoedd Aberystwyth? Neu brynu swing fach arall i'r cae chwarae am ein trafferth efallai?

Gobeithio'n wir y cawn ein siomi o'r ochr orau.

*Mae Rhydian yn Ymgynghorydd Cysylltiadau Cyhoeddus gyda StrataMatrix.*



Wil Griffiths: *Dyn y Mêl*
Gwasg Carreg Gwalch. 112t. £6.50




Y gyfrol hon yw rhif 76 yn y gyfres 'Llyfrau Llafar Gwlad' a fu'n ymddangos yn gyson o Wasg Carreg Gwalch er 1986. Cyfres yn ymwneud â phob math o bynciau a themâu ydyw, ac yn y gyfrol ddiweddaraf hon dyma ein cyflwyno i faes arall eto. A phwy gwell i wneud hynny na'r gwenynwr adnabyddus a phrofiadol, y cyn-brifathro Wil Griffiths, sy'n frodor o ardal Llangwyryfon, ac sy'n byw ar gyrion ardal y Tincer yng Nghomins-coch? O'i flynyddoedd cynnar yn ei drowser cwta y mae Wil, ar ei gyfaddefiad ei hun, wedi treulio blynyddoedd lawer erbyn hyn a'i 'ben mewn cwch gwenyn', ac fel y dengys y llyfr hwn, wedi crynhoi gwybodaeth eang iawn am fyd rhyfeddol gwenyn a mêl. Ond na feddylier neb mai rhyw lawlyfr sych a thechnegol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn wenynwyr yw hwn. Stori sydd yma, mewn Cymraeg cartrefol, graenus, am un o ryfeddodau byd natur, am y modd y bydd gwenynen yn dechrau ar ei llafur ar ddydd ei genedigaeth, am wahanol ddawnsfeydd y gwenyn sy'n rhoi gwybodaeth i ddeiliaid eraill y cwch am bellter, cyfeiriad, dwyster a blas y neithdar cyn iddynt gychwyn ar eu taith i'w gyrchu, ac mor ofalus y mae angen iddynt sylwi ar y wybodaeth, gan bod eu bywyd yn dibynnu ar hynny i raddau helaeth. Dadlennir y modd y bydd gwenynwr yn gorfod marcio cefn bach iawn y frenhines er mwyn iddo ei adnabod ymhlith y gwenyn eraill yn y cwch, a'r gwahanol ddeunydd a ddenyddir i wneud hynny — y lliw a rydd merched ar eu hewinedd, er enghraifft, ac weithiau, 'tippex' hyd yn oed. Yn ychwanegol at ymdriniaeth drylwyr â byd y gwenyn — 'eu trefnusrwydd, eu diwydrwydd a'r hyn sy'n perthyn iddynt' chwedl yr awdur, y mae hefyd luniau (rhai ohonynt mewn lliw llawn), deiagramau, cartwnau a nifer o anecdotau am ambell dro trwstan a ddigwyddodd i'r awdur mewn perthynas â'i wenyn — un ohonynt yn y Babell Lên ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, o bob man. Ceir hefyd Eirfa ddefnyddiol ar y diwedd. Ddarllenwyr y Tincer, HEIDIWCH ar fyrder i'r siop lyfrau agosaf i chwilio am y gyfrol felys hon.

**Tegwyn Jones**


## CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRAEG CEREDIGION

Mae sôn cynyddol ar led nad yw popeth yn dda ym myd y gwenyn ac er mwyn ceisio arbed eu tranc mae yna nifer o bobl wedi mynd ati i ddechrau cadw gwenyn. Fel cymdeithas o wenynwyr rydym yn barod iawn i fod o gymorth i rai sydd â diddordeb ac efallai am ddechrau, trwy redeg cwrs dechreuwyr yn y flwyddyn newydd. Am fwy o fanylion ffoniwch Wil Griffiths ar 01970 623334 neu arlein wilmair@btinternet.com



Tŷ Coch ym 1951. Safai Tŷ Coch ar y gyffordd rhwng y briffordd Aberystwyth- Bow Street lle mae'r tro am Benrhyn-coch. Allt Tŷ Coch enwir yr allt rhwng y briffordd a'r bont rheilffordd a groesir cyn dod at Glyn Deri (arferai gael ei alw yn Royal Oak) a Maes y Deri. Y rhai olaf i fyw yn Tŷ Coch oedd Mr O. Williams a Mrs Mary Williams a'u mab Gwyn fu'n byw yno o tua 1950 hyda y 1960au. Yn ddiweddarach fe dynnwyd y tŷ i lawr. Diolch i Agnes Morgan, Penrhyn-coch am gael benthyg y llun.

*John Meredith. Yr Hwn Ydwyf:* Hunangofiant John Meredith. Y Lolfa. 141t. £7.95.




I unrhyw un dros drigain oed byddai'n anodd anghytuno â dwy frawddeg a welir ym mhennod gyntaf y gyfrol hon, sef "Rwy'n teimlo mai 'nghenedlaeth i oedd yr ola cyn y newid cymdeithasol mawr. Am genedlaethe roedd yr ardal wedi bod yn ddigyfnewid'. A chofnod o'r parhad hwnnw pan oedd yr awdur yn mwynhau ei blentyndod yn y Bont yw un o benodau difyrraf y gyfrol ddifyr hon. Ond cyn dod at ei fabinogi y mae'n rhoi inni adroddiad llawn a manwl o'r noson ryfeddol honno ym Medi 1997 pan gyhoeddodd i'r genedl — o flaen pawb arall — ac yn ramadegol gysact, fod Cymru wedi cymryd cam sylweddol tuag at ei rhyddid gwleidyddol. Campus o stori ydyw, ac nid llai diddorol yw'r gweddill chwaith. Yn wahanol i lawer ohonom a fagwyd mewn pentrefi gwledig yng Ngheredigion, yr oedd gan John berthnasau'n cadw siop yn Llundain, a byddai'n mynd ei hunan bach o stesion Strata i Paddington, ac yn cael cyfle adeg gwyliau ysgol i brofi bywyd tipyn prysurach y Babylon fawr honno, a rhoi i ni yn y fargen ddarlun o fywyd bob dydd y siop a rownd laeth a oedd yn eiddo i'w ewythr a'i fodryb. O Ysgol y Bont i Ysgol Tregaron, ac oddi yno i weithio mewn labordy yng Ngholeg Aberystwyth lle bu iddo ran, ymhlith pethau eraill, yn datblygu sebon gwallt i Johnson & Johnson. Aeth ei waith ag ef a'i deulu i America, a diddorol eto yw'r hanes a gofnodir am y daith honno. Fel gohebydd trylwyr ar y cyfryngau y bydd y rhan fwyaf ohonom yn synio am John Meredith, a chawn yma hanes ei yrfa ar y radio a'r teledu, hanes sy'n llawn o bethau diddorol megis hedfan yn Concord, achos Siôn Jenkins a hyd yn oed y tornado hwnnw a drawodd Bow Street beth amser yn ôl. Daw ei ddiddordeb mewn chwaraeon, yn enwedig pêl-droed a chriced, i'r amlwg yn gyson, a bydd yr atgofion a'r hanesion am y timau pêl-droed lleol yn canu clychau yng nghof llawer un. Adroddir y cyfan mewn Cymraeg glân a chartrefol, ac mewn cyfrol sy'n orlawn o ffeithiau, ni sylwais i ond ar ddau lithriad bach. Ar dudalen 80 dywedir i Richard Burton farw yn America. Yn y Swistir y digwyddodd hynny. Ac ar dudalen 96 cyfeiria at un o'i gyd-ohebwyr ar 'Helo Bobol' gynt wrth yr enw Catrin Stephens lle dylai fod yn Catrin Stevens. Ond mewn cyfrol mor ddiddan nid yw hynny ond mân lwch y cloriannau.

**Tegwyn Jones**

## Inter Milan Ceredigion!

Rhwng 1948 a 1953 bu Trefeurig & District United yn chwarae pêl-droed yng nghynghrair Aberystwyth a'r Cylch. Mewn pum tymor chwaraeasant 94 o gêmau cynghrair gan ennill ond 13. Adroddir eu stori mewn llyfryn newydd dwyieithog *Caneris melyn Trefeurig / Trefeurig's yellow canaries*, o waith Richard E. Huws, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd.

Mae'r llyfr nid yn unig yn rhoi hanes y tîm, ond mae'n gronicl pwysig hanesyddol a chymdeithasol o oes a fu. Chwaraeai'r tîm ar gae oedd dros 700 troedfedd uwchben y môr ym Manc-y-darren mewn ardal ddiarffordd yng ngogledd Ceredigion, a thynnwyd chwaraewyr o bentrefi pell ac agos i'w gynrychioli. Dibynnai'r clwb yn bennaf ar chwaraewyr o bentrefi plwyf Trefeurig fel Banc-y-darren, Cwmerfin, Cwmsymlog a Phen-bont Rhydybeddau, ond yn ogystal bu'n rhaid denu chwaraewyr o bentrefi cyfagos fel Bow Street, Capel Bangor, Derwen-las, Llanbadarn Fawr, Llanfarian, Taliesin, Tal-y-bont a Thrawsgoed. Daeth nifer o fechgyn hefyd o Aberystwyth a Phenparcau, ac ymhlith y 70 a fu'n cynrychioli'r tîm roedd nifer o fyfyrwyr y brifysgol. Mae'r llyfryn yn cynnwys bywgraffiad byr o bob chwaraewr, ac mae'n ddiddorol i nodi bod yn eu plith fechgyn o dras Albanaidd, Almaenaidd, Eidalaidd a Gwyddelig, yn ogystal â nifer o Saeson a ymsefydlodd yn yr ardal. Fel Inter Milan roedd Trefeurig hefyd yn dîm rhyngwladol !

Yr awdur yw Richard E. Huws, Bont-goch, cyn-aelod o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a gyhoeddodd *The football and rugby playing fields of Wales* o wasg Y Lolfa yn 2009. Ysgrifennwyd y rhagair gan Tegwyn Jones, Bow Street, a fu'n chwaraewr ac yn gefnogwr Trefeurig. Mae'r llyfr hefyd yn cynnwys nifer o luniau grŵpiau ac unigolion.

Cyhoeddir *Caneris melyn Trefeurig / Trefeurig's yellow canaries*, 72tt, (ISBN:978-1-84771-311-7) gan yr awdur, Richard E. Huws, Pantgwyn, Bont-goch, Ceredigion, SY24 5DP. (01970-83256 / rehuws@aol.com) Ei bris yw £6 yn y siopau, neu £7 i gynnwys cludiant a phacio os archebir drwy'r post.

# YSGOL PENRHYN-COCH

### Ruth Jen

Croesawyd Ruth Jen i'r ysgol i weithio gyda holl ddisgyblion yr ysgol. Bu yma am ddau ddiwrnod yn creu baneri yn seiliedig ar y tymhorau. Bydd y baneri hyn yn cael eu gosod yn neuadd yr ysgol. Cafwyd llawer o hwyl wrthi yn gweithio a chrewyd baneri arbennig iawn. Diolch i Ruth am ddod atom.

### Ysgol Penweddig

Yn ddiweddar, gwahoddwyd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 i ymweld â Ysgol Gyfun Penweddig. Pwrpas yr ymweliad oedd i gymryd rhan mewn gwers Wyddoniaeth o dan arweiniad Mr Gareth Lewis a Mrs Sandra Laverty. Treuliwyd prynhawn arbennig yno yn arbrofi wrth losgi amryw o eitemau. Bu hyn yn gyfle gwych i'r disgyblion i ddysgu sgiliau gwyddonol newydd o dan amgylchiadau arbenigol. Diolch yn fawr iawn i'r Pennaeth, Mr Llwyd Ifan am y gwahoddiad ac i'r staff am y croeso a gafwyd. Gobeithiwn drefnu ymweliadau tebyg yn y flwyddyn newydd.

### Diolchgarwch

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar ddydd Gwener olaf cyn hanner tymor. Bu pob dosbarth wrthi yn cymryd rhan a chasglwyd nwyddau amrywiol o'r disgyblion. Yn ystod y prynhawn teithiodd Clwb Côr yr ysgol i Gartref Tegerddan, Bow Street i ddiddanu'r trigolion. Bu'r disgyblion yn canu nifer o ganeuon ac yna rhannwyd y nwyddau o amgylch y trigolion. Diolch i'r staff am y croeso.



Disgyblion Ysgol Penrhyn-Coch wrthi yn mwynhau gwers Gwyddoniaeth yn Ysgol Penweddig



Aelodau o Clwb Cor yr ysgol yn diddanu trigolion Cartref Tregerddan

## CYFLE I ENNILL COPI!

Gyrrwch ateb i'r cwestiwn isod gyda'ch enw a'ch cyfeiriad mewn e-bost neu drwy'r post at y golygydd cyn Rhagfyr 10fed



**Pa dim pêl-droed o Gymru sy'n cael ei adnabod fel y Caneris?**

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

### Diolchgarwch

Hyfryd oedd cynnal gwasanaeth o ddiolchgarwch y tymor yma. Daeth Miss Beti Griffiths i siarad gyda'r plant a chafwyd neges bwrpasol ganddi ar ddiolchgarwch. Cafwyd eitemau gan bob dosbarth o ganu a llefaru.

### Deintydd

Bu'r deintydd yn gwneud gwersi ar sut i ofalu am ddannedd yn y babanod ac yr adran iau. Roedd y neges yn glir -brwsio bore a nos!

Rhoddodd y deintydd anrheg i bob plentyn sef brwsh dannedd newydd i'w ddefnyddio yn ddyddiol.

### Trawsgwlad a'r Gala Nofio

Gwnaeth pob plentyn eu gorau glas yn ddiweddar yn y trawsgwlad, cylch Aberystwyth. Da iawn chi. Cafodd Jonah Williamson-Evans hwyl dda ar y nofio yng nghystadleuaeth Yr Urdd. Roedd yn bles iawn wrth iddo ddychwelyd i'r ysgol efo safle o fewn y deg cyntaf. Da iawn ti!

### Y Pabi Coch

Daeth llu o bobl i'r ysgol un bore i ofyn am help y plant i wneud ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am y Pabi Coch. Roedd pobl y Lleng Brydeinig yn fwy na pharod i ateb cwestiynau oedd gan y plant ar y pwnc. Hyfryd oedd gweld eu lluniau yn y papur wythnosol lleol. Cafodd y disgyblion eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyngerdd yn neuadd y pentref i helpu efo'r ymgyrch. Roeddent wedi perfformio yn arbennig ac wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

### Clwb coginio

Mae pawb wedi bod yn brysur iawn yn yr wythnosau diwethaf yn coginio cawl, cacennau bach ac ysgytlaeth ffrwyth hyfryd. Mae'r disgyblion yn mwynhau coginio yn fawr iawn ac yn awgrymu yn aml syniadau newydd ar gyfer yr wythnos nesaf.

### Heddlu

Lily Pryce oedd enillydd y gystadleuaeth arbennig gan yr heddlu i fynd a threulio sawl diwrnod yng nghwmni'r gwasanaethau brys. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr ar weld eu cyflwyniad i'r ysgol.



Miss Beti Griffiths yn derbyn blodau gan Kelsy Hemmings



Plant y babanod wedi blino ar ôl y trawsgwlad



Bechgyn yr ysgol yn brysur yn paratoi y llysiau



Plant yr ysgol yn helpu efo apêl y Pabi coch

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

Cofiwch gysylltu â ni
ytincer@googlemail.com

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Diolchgarwch

Ar ddydd Mercher yr 20fed o Hydref, cynhaliwyd cyngerdd Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Yn dilyn traddodiad, rhoddwyd croeso i henoed yr ardal a thrigolion y gymuned. Cafwyd gwledd o ganu a llefaru graenus o flynyddoedd 1 i 6 ac yn dilyn y perfformiad, cafodd yr henoed gyfle i sgwrsio am ymdrechion y disgyblion dros wledd arall, sef te hynod o flasus wedi ei baratoi gan staff y gegin. Yn ystod y prynhawn cyflwynwyd ein casgliad Diolchgarwch i Sharon Woodcock, cynrychiolydd ein helusen eleni, sef 'Ffagl Gobaith' - elusen sy'n cynorthwyo pobl a phlant yn ein hardal leol. Casglwyd £270.25. Diolch yn fawr iawn i bawb.

## Adran yr Urdd

Cynhaliwyd Noson Calan Gaeaf Adran Yr Urdd yn yr ysgol yn ddiweddar. Cafodd aelodau'r Urdd gyfle i wisgo gwisg ffansi a mwynhau ychydig o hwyl a sbri'r noson arbennig hon. Cafodd nifer o blant wobrau hael a chytunodd pawb fod y noson wedi bod yn un ddifyr iawn.

Trawsgwlad

Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Aberystwyth ar ddydd Gwener Hydref yr 8fed ar gaeau'r Ficerdy. Cynrychiolwyd yr ysgol gan 56 o blant blynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i gyflawni'r cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol gan iddynt orffen yn y deg cyntaf - Tomos Lyons bl 3 (8ed); Catrin Manley bl 4 (6ed); Megan Jackson bl 5 (7ed); Shaun Jones bl 5 (8ed); Sion Manley bl 6 (4ydd). Mi fyddant nawr yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion yn y flwyddyn newydd. Pob hwyl iddynt!

Ymweliad Addysgol

Fel rhan o thema'r tymor, 'Bwyd a Ffermio', fe aeth dosbarth Mrs Williams i Fferm Ffosygrafel a Fferm Dolclettwr er mwyn gweld a deall sut mae'r diwydiant amaeth yn gweithio. Diolch yn fawr iawn i deulu'r Griffiths a theulu'r Davies am y croeso a'r profiadau gwych.

## Mynd am Dro

Fe aeth y dosbarth Derbyn ar daith yn y bws yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd cyrraedd y goedwig wrth ymyl Gogerddan. Wrth fynd am dro drwy'r coed, gwelwyd nifer o bethau diddorol iawn yn cynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion amrywiol. Cafwyd cyfle hefyd i arsylwi ar yr holl ddail sydd wedi disgyn o'r coed yn ddiweddar a bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn cymharu eu siapiau a'u lliwiau.

## Diogelwch

Rhai diwrnodau cyn Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc; cafodd blwyddyn 5 a 6 ymweliad gan ein Heddwas Cymunedol, PC Hefin Jones a Swyddog Cymunedol Gorsaf Dân Aberystwyth, Karen Roberts. Rhybuddiwyd y plant o'r problemau diogelwch a all godi yn sgîl ffolineb a diffyg synnwyr cyffredin ar y nosweithiau hyn.

Dyfeisio a Darganfod

Ar y 3ydd a'r 4ydd o Dachwedd cafwyd ymweliad arall gan Mr Eifion Collins, XL Wales. Cafodd pob plentyn o'r flwyddyn 1 i flwyddyn 6 gyfleon i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau. Ac, fel arfer, roedd gweithgareddau Mr Collins yn arbennig o dda.

Codi Arian

Cynhaliwyd diwrnod gwisg ffansi yn ddiweddar er mwyn codi arian at 'Ambiwlans Awyr Cymru' yn enw Elain Gwawr James - babi bach lleol sydd wedi elwa o wasanaeth yr elusen. Casglwyd £250 tuag at yr achos.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk



Plant y dosbarth Derbyn yn y goedwig.



Rhai o blant yr ysgol yn perfformio yn ystod Y Diolchgarwch.



Trigolion yr ardal yn mwynhau te a sgwrs yn dilyn Y Diolchgarwch.




Dosbarth Mrs Williams yn ymweld a Fferm Ffosygravel.



P.C.Hefin Jones yn rhybuddio cyn Noson Calan Gaeaf a Noson Tan Gwyllt.















CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# YSGOL PEN-LLWYN

## Taith noddedig

Ar nos Wener, Hydref 1af, fe fu llawer o'r disgyblion, rhieni a'r staff yn cymryd rhan mewn taith noddedig yng Nghwmrheidol. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Codi Arian y Gymdeithas a rhaid dweud ei bod hi wedi bod yn noson hyfryd i gerdded. Ar ôl y daith aethom yn ôl i Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor i gael ychydig o luniaeth ac i gymryd rhan yn y ffair. Casglwyd £730 ar ôl y daith noddedig felly diolch i bawb a gyfrannodd.

## Trawsgwlad

Cawsom brynhawn arbennig ar gaeau'r Ficerdy ar gyfer gŵyl trawsglwad yr ardal. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran ymhob ras. Bu tri o fechgyn yn llwyddiannus ac yn cael mynd ymlaen i'r cam nesaf. Tomos Evans ddaeth yn ail, Gethin ap Dafydd a ddaeth yn bedwerydd a Jo Jones yn ddegfed. Da iawn chi!

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar brynhawn dydd Mercher, Hydref 20fed ac ar ôl y gwasanaeth cawson amser I gymdeithasu dros gwpaned o de a chacen. Casglwyd £68 at Ambiwlans Awyr Cymru yn ystod y gwasanaeth.

## Tîm Plismona Bro

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu un o Dîm Plismona Bro Aberystwyth yn yr ysgol yn gosod cystadleuaeth ysgrifennu i'r plant hynaf. Gan mai Manon Davies enillodd y gystadleuaeth hi sydd yn cynrychioli'r ysgol ac yn mynychu'r orsaf heddlu unwaith yr wythnos er mwyn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Llongyfarchiadau Manon!

## Croeso nôl

Ar ôl hanner tymor dychwelodd Mrs Williams ar ôl cyfnod o salwch ac fe hoffwn ei chroesawu yn ôl i Ben-llwyn a diolch i Miss Angharad Jones am ei help gwerthfawr yn ystod y cyfnod yma.

## Diwrnod T. Llew Jones

Buon yn darllen darnau o waith T. Llew Jones. Cawson hwyl gyda amrywiaeth o weithgareddau iaith yn ein dosbarthiadau.

## Pen blwyddi

Ar ôl astudio thema 'Pen blwyddi', aeth dosbarth 1 ati i drefnu parti i ddathlu pen blwydd Ianto. Daeth plant a staff o Ysgol Feithrin Pen-llwyn atom i ymuno gyda'r dathliadau. Roedd nifer fawr o weithgareddau i wneud yn ystod y bore cyffrous a llawer o hwyl yn addurno cacennau a gwledd anferth a blasus i'w fwynhau. Chwaraeon ni gêmau a chymryd rhan mewn cystadlaethau dawnsio ac aeth pawb adre yn hapus dros ben.

## Diolch

Carwn ddiolch i rieni dosbarth 1 am eu help yn ystod y tymor yma eto yn enwedig Mr Ieuan Joyce a Mr Paul Hancox a fu'n peintio a theilo yng nghyntedd dosbarth 1.



Taith noddedig yng Nghwmrheidol



Trawsgwlad



Parti Pen blwydd Ianto



Parti Pen blwydd Ianto



Parti Pen blwydd Ianto

# TASG Y TINCER


Mirain Gregory

Wel, mae sawl peth wedi digwydd ers Tasg mis Hydref! Fuoch chi allan yn rhoi braw i bobl ardal Y Tincer ar noson Calan Gaeaf? A beth am noson Guto Ffowc? Rwy'n siwr i chi gael hwyl yn gwylio'r goelcerthi a'r rocedi.

Diolch i bob un ohonoch chi fu'n lliwio llun y dylluan yn chwarae golff y mis diwethaf. Dyma pwy anfonodd eu gwaith ata'i:

Ceri Ann, 12 Y Ddôl Fach, Penrhyn-coch; Noa Rowlands, Henley, Morfa Mawr, Aberystwyth; Megan Fflur Lewis, Ystrad, Capel Bangor; Mirain Gregory, Y Deri, 6 Elysian Grove, Aberystwyth; Fabien Owen Roberts, Llwyngwair, Tal-y-bont; Ffion Wyn, 10 Carreg Wen, Bow Street; Alison Keegan, Fferm Maes Bangor, Capel Bangor.

Roedd eich lluniau'n hyfryd. Hoffais drowsus dy dylluan di, Noa, a lliw gwyrdd dy gwrs golff di, Alison, ond ti Mirain sy'n cael y wobr y tro hwn. Llongyfarchiadau!

Rwy wedi teithio'n bell ers llunio'r Dasg ddiwethaf! Wyddoch chi i ba wlad fues i? I Queensland, yng ngogledd ddwyrain Awstralia! Falle yr hoffech edrych mewn atlas, neu ar y we er mwyn gweld lle yn union mae Queensland. Gwelais i bob math o anifeiliaid yno — cangarw, coala, emiw, walabi, aderyn kookaburra, ystlumod o bob math, a sawl pilipila lliwgar, heb sôn am bryfed o bob lliw a llun! Roedd y tywydd yn braf iawn ac mi ges i amser wrth fy modd. Y mis hwn, beth am liwio baner Awstralia, ond cofiwch ddefnyddio'r lliwiau cywir. Hefyd, dyma lun cangarw, gan fy mod wedi cael cyfle i roi bwyd i ambell un cyfeillgar! Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Rhagfyr 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed | Rhif ffôn


ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol



Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Llety Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi . Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths



Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com


ISSN 0963-925X
Rhif 333 | TACHWEDD 2010